

national
museum
wales
amgueddfa
cymru

Adroddiad Ariannol 2010/11



Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd

Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NP

+ 44 (0) 29 2039 7951

Big Pit: Amgueddfa Lofaol Cymru

Blaenafon, Torfaen NP4 9XP

+ 44 (0) 1495 790 311

Amgueddfa Lechi Cymru

Gilfach Ddu, Llanberis, Gwynedd LL55 4TY

+ 44 (0) 1286 870 630

Amgueddfa Genedlaethol y Glannau

Ffordd Ystumllwynarth, Ardal Forwrol, Abertawe SA1 3RD

+ 44 (0) 1792 638950

Sain Ffagan: Amgueddfa Werin Cymru

Sain Ffagan, Caerdydd CF5 6XB

+ 44 (0) 29 2057 3500

Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru

Stryd Fawr, Caerllion NP18 1AE

+ 44 (0) 1633 423 134

Amgueddfa Wlân Cymru

Dre-fach Felindre, Llandysul, Sir Gaerfyrddin SA44 5UP

+ 44 (0) 1559 370 929

Y Ganolfan Gasgliadau

Nantgarw, Rhondda Cynon Taf CF15 7QT

+ 44 (0) 29 2057 3651

Cyhoeddwyd yn 2011 gan

Amgueddfa Cymru, Parc Cathays, Caerdydd. CF10 3NP

© Amgueddfa Genedlaethol Cymru

Cynhyrchu: Mari Gordon

Cymraeg: Testun

Dylunio: Andrew Griffiths Design

Argraffu: Xpedient

Cedwir pob hawl. Ni chaniateir atgynhyrchu, storio mewn system adfer na throsglwyddo unrhyw ddarn o'r cyhoeddiad hwn mewn unrhyw ffurf neu trwy unrhyw fodd boed yn drydanol, yn fecanyddol neu fel arall, heb yn gyntaf geisio caniatâd ysgrifenedig Amgueddfa Cymru neu ddeiliad/deiliaid yr hawlfraint, neu fel y mae'r gyfraith yn ei ganiatáu. Dylid gyrru unrhyw ymholiadau eraill at yr Adran Gyhoeddiadau, Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, CAERDYDD CF10 3NP.

Mae'r Adroddiad Ariannol yma ar gael ar ein gwefan:

www.amgueddfacymru.ac.uk

Argraffwyd yr Adroddiad yma ar bapur â Thystysgrif Amgylchedd ISO 14001. Fe'i gwnaed o ffibr pren o goedwigoedd cynaliadwy, mae'n bydradwy a gellir ei ailgylchu.

the national
museum
wales
amgueddfa
cymru



ADRODDIAD ARIANNOL BWRDD YMDDIRIEDOLWYR AMGUEDDFA CYMRU

Cefndir Statudol ac Ymgysylltiad Rhanddeiliaid

Sefydlwyd 'Amgueddfa Cymru' (yr Amgueddfa) trwy Siarter Frenhinol ym 1907, ac mae'n parhau i fod wedi'i chofrestru fel corff cyfreithiol ac elusen o dan yr enw hwn (Rhif Elusen 525774, Rhif TAW GB 783 4541 10). Enw cyhoeddus y sefydliad yw Amgueddfa Cymru.

Mae'n elusen gofrestredig annibynnol, ac yn cael ei hariannu'n bennaf trwy gymorth grant gan Lywodraeth Cymru fel Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru (CNLC).

Ei hamcan craidd yw 'hyrwyddo addysg y cyhoedd'. Mae hyn yn golygu datblygu casgliadau cenedlaethol Cymru, gofalu amdanynt, eu hastudio a'i gwneud yn hawdd i bobl eu mwynhau er lles cymdeithas, a hynny am byth. Mae'r Siarter (1907, a ddiwygiwyd ym 1991 a 2006) yn nodi y dylid cyflawni hyn:

- (i) yn bennaf, trwy sicrhau cynrychiolaeth gynhwysfawr i wyddoniaeth, celfyddydau, diwydiannau, hanes a diwylliant Cymru neu sy'n berthnasol i Gymru, ac
- (ii) yn gyffredinol, trwy gasglu, cofnodi, diogelu, egluro a chyflwyno gwrthrychau a phethau a gwybodaeth gysylltiedig, boed yn gysylltiedig â Chymru ai peidio, y bwriedir iddynt hybu gwell dealltwriaeth a hyrwyddo ymchwil.

Yn 2006, cafodd yr Amgueddfa Siarter Frenhinol a Statudau Atodol. Newidiodd y Siarter newydd hon drefniadau llywodraethu'r Amgueddfa trwy ddiddymu Llys y Llywodraethwyr. Ymgysylltiad rhanddeiliaid, fodd bynnag, yw conglaen gweledigaeth Amgueddfa Cymru o hyd.

I'r diben hwn, parhaodd Cynllun Gweithredol 2010-11 â'r broses o weithredu'r *Cynllun Ymgynghori a'r Cynllun Gweithredol Perchnogaeth – Gosod y Dinesydd yn y Canol*, sef strategaeth ymgysylltiad cyhoeddus cost-effeithiol oedd â'r nod o annog rhanddeiliaid i gyfrannu at amrywiaeth o fecanweithiau ymgynghori. Mae'r Cynllun yn amlinellu'r gwerthoedd, yr egwyddorion a'r technegau cyfranogi allweddol a lywiodd brif weithgareddau ymgynghorol Amgueddfa Cymru ar gyfer 2010-11.

Mae'r Cynllun Gweithredu ar gyfer 2010-11, sydd wedi'i gynnwys fel atodiad i Gynllun Gweithredol 2010-11, yn amlinellu'r rhaglen o weithgareddau ymgysylltu â'r cyhoedd ledled Amgueddfa Cymru. Mae'n rhestru gweithgareddau sy'n cael sylw yn y Cynllun Gweithredol a drefnwyd a/neu a ddarparwyd gan staff sy'n ymgysylltu â'r cyhoedd a rhanddeiliaid eraill. Roedd hefyd yn cynnwys gweithgareddau oedd yn ymwneud â datblygu'r Agenda Perchnogaeth yn fwy cyffredinol.

Nodau ac Amcanion

Mae blaenoriaethau cyfredol Amgueddfa Cymru yn parhau'n ddigyfnewid, fel y'u cyflwynir yn y ddogfen weledigaeth:

- **creu amgueddfeydd byw** lle mae'r casgliadau'n adrodd eu straeon mewn ffordd gliriach, a'r ymwelwyr yn profi bywyd ddoe a heddiw ac yn archwilio gwahanol bosibiliadau ar gyfer y dyfodol
- **datblygu casgliadau llewyrchus** sy'n cael eu defnyddio'n dda, sy'n gynaliadwy ac sy'n tyfu
- **canfod llwybrau i wneud synnwyr o'r byd** gan ddefnyddio amrywiaeth o gyfryngau sy'n addas ar gyfer gwahanol ddulliau dysgu, er mwyn creu mynediad cyfartal i'r casgliadau
- **dysgu trwy rannu** ein cynlluniau gyda'n hymwelwyr, a chyd-ddatblygu'r ffyrdd yr ydym yn gweithio, er mwyn creu mynediad ystyrlon i'r amrywiaeth o bobloedd sydd wedi ymgartrefu yng Nghymru ddefnyddio'r casgliadau
- **cyfathrebu** ein neges fel y daw Amgueddfa Cymru'n adnabyddus fel canolfan ddysg o safon ryngwladol
- **datblygu trwy ddysgu** trwy blannu a dathlu sgiliau dysgu wrth galon ein holl waith
- **adeiladu ar ein hadnoddau** er mwyn creu sail gadarn a chryf i gyflawni ein Gweledigaeth ar gyfer y deng mlynedd nesaf a thu hwnt.

Trefniadau Llywodraethu – Bwrdd yr Ymddiriedolwyr a'r Cyfarwyddwyr

Mae awdurdod gweithredol yr Amgueddfa gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr, sy'n gyfrifol am reoli a gweinyddu cyllid ac eiddo'r Amgueddfa lle buddsoddir yr holl arian a gyfrannwyd gan Lywodraeth Cymru neu a gafwyd o ffynonellau eraill a'r holl diroedd, adeiladau neu roddion mewn da a gymynroddwyd neu a gyflwynwyd at ddiben y sefydliad. Mae Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yn cyfarfod yn rheolaidd, yn gyhoeddus, i gyflawni ei waith.

Penodir aelodau Bwrdd Ymddiriedolwyr yr Elusen gan Lywodraeth Cymru a'r Amgueddfa, mewn niferoedd a bennir o fewn y Siarter Frenhinol atodol ac yn unol ag egwyddorion penodi agored yn ôl argymhellion Adolygiad Nolan. Mae is-bwyllgor Penodiadau wedi'i sefydlu i gynorthwyo a chynghori ar y broses. Mae pob unigolyn newydd a benodir yn dilyn rhaglen gyflwyno ac yn derbyn llawlyfr cynhwysfawr yn fuan ar ôl eu penodiad. Nid yw'r Amgueddfa'n talu unrhyw aelod o Fwrdd yr Ymddiriedolwr am ei wasanaeth. Cedwir manylion unrhyw gwmnïau y maent yn gyfarwyddwyr arnynt a buddiannau sylweddol eraill mewn Cofrestr Buddiannau sydd ar gael i'r cyhoedd, ac a gedwir yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd.

Ymdeolodd Paul Loveluck ar 31 Mai 2011, ar ôl bron i naw mlynedd yn Llywydd y Bwrdd. Hoffai Bwrdd yr Ymddiriedolwyr dalu teyrnged iddo am safon ei arweinyddiaeth ac am ei ymrwymiad eithriadol i'r Amgueddfa yn ystod y cyfnod hwn. Mae wedi cyflwyno strategaeth glir i'r dyfodol ac yn gadael wedi cyflawni cymaint ledled yr Amgueddfa. Bu hefyd yn llysgennad gwerthfawr dros ben i Amgueddfa Cymru bob cyfle posibl, a thrwy hynny, mae wedi gwella ei henw da yng Nghymru a thu hwnt.

Aeth Gweinidog Treftadaeth Llywodraeth Cymru, mewn ymgynghoriad ag Amgueddfa Cymru, ati i benodi olynydd iddo, a goruchwyliwyd hyn gan Uned Penodiadau Cyhoeddus Llywodraeth Cymru. Ar 1 Mehefin 2011, cafodd Elisabeth Elias – cyn Is-lywydd yr Amgueddfa – ei phenodi'n Llywydd am y pedair blynedd nesaf, ac fe'i croesawyd yn gynnes gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr. Mae atodlen o aelodau Bwrdd yr Ymddiriedolwyr trwy gydol y flwyddyn a hyd at ddyddiad yr adroddiad hwn, gan gynnwys ymddeoliadau a phenodiadau newydd, yn rhan o'r adroddiad hwn.

Mae Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yn dirprwyo rhywfaint o awdurdod i amrywiol is-bwyllgorau, yn bennaf y Pwyllgor Adolygu Perfformiad, sydd â chylch gwaith eang i fonitro materion gweithredol, a'r Pwyllgor Archwilio, sydd â Chadeirydd annibynnol a dau aelod annibynnol arall. Mae'r pwyllgorau hyn yn cyfarfod yn chwarterol. Mae'r Ymddiriedolwyr hefyd yn penodi Bwrdd yr is-gwmni sy'n cyfarwyddo materion masnachol

Amgueddfa Cymru ac, yn ogystal ag Ymddiriedolwyr Gyfarwyddwyr, penodir Cyfarwyddwyr anweithredol eraill sydd â phrofiad masnachol priodol. Mae atodlen o'r aelodau Bwrdd hynny yn rhan o'r adroddiad hefyd.

Bwrdd y Cyfarwyddwyr sy'n ymdrin â materion gweithredol o ddydd i ddydd, ac mae eu manylion hwythau hefyd yn yr adroddiad hwn. Penodir pob aelod o Fwrdd y Cyfarwyddwyr trwy gystadleuaeth agored ac fe'u cyflogir o dan Delerau ac Amodau Cyflogaeth safonol Amgueddfa Cymru, sy'n berthnasol i'r holl staff, ac eithrio'r Cyfarwyddwr Cyffredinol, a benodir o dan delerau a gytunwyd gyda Llywodraeth Cymru.

Gadawodd Michael Houlihan ei swydd fel Cyfarwyddwr Cyffredinol ar 8 Awst 2010, i fynd yn Brif Weithredwr Te Papa Tongerawa, Amgueddfa Genedlaethol Seland Newydd. Fel o'r blaen, hoffai'r Ymddiriedolwyr nodi cyfraniad aruthrol Michael Houlihan fel pennaeth Amgueddfa Cymru am saith mlynedd, wrth sefydlu'r weledigaeth i fod yn Amgueddfa Ddysg o Safon Ryngwladol a chryfhau ei lle ym mywyd diwylliannol Cymru. Penodwyd David Anderson yn Gyfarwyddwr Cyffredinol newydd, a dechreuodd ar ei waith ar 11 Hydref 2010. Ef oedd Cyfarwyddwr Dysgu Amgueddfa Fictoria ac Albert, ac mae ganddo nifer o rinweddau personol a phrofiad gwerthfawr a fydd yn ei alluogi i helpu'r Amgueddfa i wireddu'r Weledigaeth ac, yn arbennig, bwrw ymlaen â'r cynlluniau uchelgeisiol i ailddatblygu Sain Ffagan. Mae'r Ymddiriedolwyr yn ddiolchgar i Mark Richards, y Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol, am fod yn Gyfarwyddwr Cyffredinol Dros Dro, rhwng mis Awst a mis Hydref 2010.

Mae trefniadau llywodraethu'r Amgueddfa'n cydymffurfio'n llwyr â'r Cod Llywodraethu ar gyfer y Sector Gwirfoddol a Chymunedol a gyhoeddwyd gan y Ganolfan Llywodraethu Genedlaethol ac maent wedi'u cymeradwyo'n llwyr gan y Comisiwn Elusennau. Mae'r Ymddiriedolwyr wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd yn adran 4 o Ddeddf Elusennau 2006 i ystyried canllawiau'r Comisiwn Elusennau, gan gynnwys y canllawiau hynny ar fuddiannau cyhoeddus. Mae adroddiadau llawn am ddarparu buddiannau o'r fath gan yr Amgueddfa, fel y nodir yn ei nodau ac amcanion, yn yr Adroddiad Ariannol hwn.

Safleoedd Amgueddfa Cymru

Yn ystod 2010-11, roedd gan yr Amgueddfa saith o amgueddfeydd ar hyd a lled Cymru:

Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, Parc Cathays, Caerdydd

Mae Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd yn unigryw ymysg amgueddfeydd cenedlaethol yn y DU o ran ehangder ei harddangosfeydd celf, archaeoleg a gwyddoniaeth.

Sain Ffagan: Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan, Caerdydd

Mae Sain Ffagan, un o amgueddfeydd awyr agored mwyaf blaenllaw Ewrop, yn rhan o grŵp o bedair amgueddfa hanes cymdeithasol a diwydiannol. Gall ymwelwyr archwilio a mwynhau dros 2,000 o flynyddoedd o hanes mewn deugain a mwy o adeiladau o Fôn i Fynwy, sydd wedi'u hailgodi yma.

Big Pit: Amgueddfa Lofaol Cymru, Blaenafon, Torfaen

Mae hen bwll glo cyflawn Big Pit yn rhan ganolog o Safle Treftadaeth y Byd ym Mlaenafon. Dan arweiniad cyn-lowyr, caiff ymwelwyr eu tywys dros 90 metr i grombil tywyll y ddaear, er mwyn cael blas go iawn ar amgylchiadau gwaith y glowyr ddydd ar ôl dydd.

Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru, Caerllion, Casnewydd

Mae Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru wedi arddangos casgliad cyfoethog o ddarganfyddiadau Rhufeinig ers 150 mlynedd a mwy – gan gynnwys cerfluniau, arysgrifau, cerrig bedd, deunyddiau adeiladu, mosaig labrinth, offer milwrol, crochenwaith, gwydr a gemwaith.

Amgueddfa Lechi Cymru, Llanberis, Gwynedd

Adroddir hanes y diwydiant llechi yng ngweithdai gwreiddiol chwarel Dinorwig. Yn ogystal â'r ffowndri, gefail, siediau a'r olwyn ddŵr fwyaf ar dir mawr Prydain sy'n dal i weithio, mae crefftwyr yn arddangos eu sgiliau hollti a thrin llechi â llaw.

Amgueddfa Wlân Cymru, Dre-fach Felindre, Sir Gâr

Yng nghalon cefn gwlad y gorllewin, mae'r amgueddfa hon yn adrodd hanes y clwstwr o ddeugain melin oedd yng nghyffiniau Dre-fach Felindre ar un adeg. Mae Melin Cambrian – yr unig felin sydd wedi parhau ar waith yn gyson ers ei hadeiladu – bellach yn gartref i'r Amgueddfa.

Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, Abertawe

Mae Amgueddfa Genedlaethol y Glannau yn rhan ganolog o adfywiad Ardal Forwrol Abertawe. Hen warws rhestredig ar y glannau wedi'i gysylltu ag adeilad newydd, cyfoes o lechi a gwydr, yw cartre'r Amgueddfa. Fe'i hagorwyd yn Hydref 2005, penllanw strategaeth ddeng mlynedd a welodd fuddsoddiad gwerth £40m yn ein pedair amgueddfa ddiwydiannol ledled Cymru.

Hefyd mae gan Amgueddfa Cymru Ganolfan Gasgliadau Genedlaethol yn Nantgarw, Rhondda Cynon Taf, sy'n agored i'r cyhoedd trwy drefniant. Ar ben hynny, rydym wrthi'n gweithio mewn partneriaeth gyda sefydliadau lleol ym mhob cwr o'r wlad, gan gynnwys Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro a Chyngor Bwrdeistref Wrecsam.

Llwyddiannau yn Ystod y Flwyddyn

Daeth y flwyddyn i ben ar drothwy dengmlwyddiant y polisi mynediad am ddim, sydd wedi arwain at ddyblu'r niferoedd ymwelwyr blynyddol. Yn 2010-11, llwyddodd Amgueddfa Cymru i ragori ar ei tharged o 1.55 miliwn o ymweliadau, gan ddenu 1.65 miliwn o ymwelwyr – y nifer uchaf ond un (ar ôl 1.67 miliwn yn 2007-08, a oedd yn cynnwys naw mis o'r flwyddyn ganmlwyddiant). Yn 2010-11, ymwelodd y nifer fwyaf erioed o bobl ag Amgueddfa Lechi Cymru ac Amgueddfa Genedlaethol y Glannau. Mae bron i 15 miliwn o ymweliadau wedi'u gwneud ers i'r polisi mynediad am ddim gychwyn ym mis Ebrill 2001.

2005-06	2006-07	2007-08	2008-09	2009-10	2010-11
1,343,685	1,534,727	1,672,677	1,524,806	1,641,053	1,656,340

Poblogrwydd parhaus y polisi mynediad am ddim a ariennir gan Lywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am lawer o berfformiad cryf 2010-11, polisi sy'n rhoi cyfle i'r cyhoedd gael profiadau addysgol a diwylliannol heb eu hail yn ystod y dirwasgiad.

Roedd uchafbwyntiau eraill y flwyddyn yn cynnwys:

- Cwblhau'r gwaith adeiladu sylweddol wrth ailwampio Adain Orllewinol Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd fel rhan o gam ola'r broses o neilltuo'r llawr uchaf yn gyfan gwbl i orielau celf. Ers mis Gorffennaf 2011, mae gan Gymru ei Hamgueddfa Gelf Genedlaethol ei hun, sy'n arddangos ein casgliad celf cenedlaethol o safon ryngwladol, dan yr un to yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd. Bydd y gymysgedd o gelfyddyd gain a chymhwysol, hanesyddol a chyfoes, yn rhoi llwyfan ac amlygrwydd newydd i gelf Gymreig a chelf yng Nghymru.
- Hefyd yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, ailwampio'r orielau hanes natur a chwblhau Canolfan Ddarganfod Clore, Gofod Dysgu Clore a Gofod Cyfarfod Clore. Mae'n hwb sylweddol i allu'r amgueddfa i gynniig cyfleoedd dysgu ffurfiol ac anffurfiol o'r radd flaenaf.
- Cynnydd sylweddol gyda'r cynlluniau uchelgeisiol i ailddatblygu Sain Ffagan: Amgueddfa Werin Cymru dros y 5 mlynedd nesaf. Ym mis Tachwedd 2010, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y byddai'n dyrannu £5 miliwn yn y dyfodol er mwyn cefnogi ailddatblygiad Amgueddfa Werin Cymru, gan gydnabod pwysigrwydd strategol y safle o ran twristiaeth ddiwylliannol ac fel porth i atyniadau treftadaeth a hanesyddol ledled Cymru. Roedd hyn yn dilyn cyhoeddiad cynharach ym mis Mawrth 2010, pan dderbyniodd £450,000 o arian datblygu gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri. Mae ymrwymiad dilynol Llywodraeth Cymru yn golygu bod Amgueddfa Cymru yn gallu symud ymlaen yn hyderus i ail gam proses ymgeisio'r Gronfa. Mae ganddi tan Chwefror 2012 i gyflwyno cynlluniau mwy manwl a gwneud cais am weddill yr £8.75 miliwn gan y Gronfa sydd ei angen ar gyfer y project £20 miliwn hwn.

- Partneriaeth lwyddiannus gydag Is-adran Cysylltiadau Rhyngwladol Llywodraeth Cymru, Croeso Cymru, British Council a Chyngor Dinas Caerdydd i hyrwyddo *O Lethrau Serth: Cerfiadau Carreg Hynafol o Dazú, Tsieina* (Ionawr i Ebrill 2011) fel arddangosfa werth ei gweld i ymwelwyr hen a newydd, yn ogystal â chefnogi trefniadau gefeillio Llywodraeth Cymru gyda rhanbarth Chongqing, Tsieina, gan gynnwys amrywiaeth o gysylltiadau masnachol a diwylliannol.
- Gweithio gyda'r Gymdeithas Frenhinol i greu arddangosfa deithiol ar fioamrywiaeth a chyfres o ddiwyddiadau cysylltiedig yn ystod 2010. Defnyddiwyd sbesimenau o'r casgliadau yn yr arddangosfa ym mhob safle ac roedd y digwyddiadau'n cynnwys diwrnodau agored hanes natur yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd gyda theithiau y tu ôl i'r llenni, er mwyn cynnig cyfle i'r cyhoedd weld y casgliadau ac esbonio pa mor berthnasol yw'r casgliadau a'r gwaith ymchwil i'r agendâu bioamrywiaeth.
- Gweithio gyda Llywodraeth Cymru, y Llyfrgell Genedlaethol, Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru a sefydliadau partner eraill i ddatblygu gwefan Casgliad y Werin Cymru a lanswyd i'r cyhoedd ym mis Awst 2010. Mae Amgueddfa Cymru'n arwain y gwaith o ddarparu cynnwys a'r strategaethau dysgu a marchnata.

Gweithio Mewn Partneriaeth

Yn 2010-11, roedd ein gwaith arddangos mewn partneriaeth yn adeiladu ar lwyddiannau blaenorol. Croesawyd dau sefydliad partner newydd at ein partneriaid, a datblygodd un partner hirsefydlog i lefel uwch. Amgueddfa Wrecsam oedd un o bartneriaid gwreiddiol y cynllun Cyfoeth Gymru Gyfan, ac eleni, cwblhawyd cam cynta'r gwaith o ailddatblygu'r amgueddfa honno. Llofnododd Amgueddfa Cymru Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam sy'n adlewyrchu lefel newydd o gydweithredu. Agorodd Stori Caerdydd eleni hefyd, project Cyngor Caerdydd i ailddatblygu'r Hen Lyfrgell yn amgueddfa newydd er mwyn adrodd straeon pobl y brifddinas. Bu Amgueddfa Cymru'n cynghori ar sawl agwedd ar y project, a benthgwyd casgliadau i'r arddangosfa agoriadol.

Gwelwyd sawl project heb eu hail fel rhan o'r cynllun Celf Cymru Gyfan. Agorodd *Fables from a New World: The life and times of T. H. Thomas (1839-1915) as imagined by Jennie Savage* yn Oriol Davies ym mis Chwefror, ac arddangosfa *Inspired by Music* ym Modelwyddan. Cyflwynwyd arddangosfa Ariannol yng Nghanolfan Greffttau Rhuthun hefyd yn sgil ein cysylltiadau â'r Honourable Company of Goldsmiths.

Cyflwynwyd arddangosfa newydd, *Tirlun sy'n Newid*, yn Oriol y Parc, Tyddewi – partneriaeth rhwng Amgueddfa Cymru a Pharc Cenedlaethol Arfordir Penfro – yn ogystal ag artist preswyl newydd, Mimi Joung.

Parhaodd staff Amgueddfa Cymru i wneud cyfraniadau pwysig o ran datblygu cynnwys, creu adnoddau dysgu a gwaith hyrwyddo fel partner arweiniol Casgliad y Werin Cymru.

Mae partneriaethau ar waith yn lleol a rhyngwladol. Daeth arddangosfa deithiol fawr yn yr Unol Daleithiau, mewn partneriaeth â'r American Federation of Arts (AFA), *Turner to Cézanne: Masterpieces from the Davies Collection, National Museum Wales*, i ben yn Amgueddfa Gelf a Hanes Albuquerque yn New Mexico. Fel y ddau leoliad blaenorol, llwyddodd Albuquerque i ddenu'r nifer fwyaf o ymwelwyr a gawsant erioed, sef 78,000. Rydym yn parhau i gynnal trafodaethau gydag AFA ynghylch project dilynol ar gyfer y dyfodol.

Agorodd *O Lethrau Serth: Cerfiadau Carreg Hynafol o Dazú, Tsieina*, yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd ym mis Ionawr i gyd-fynd â'r Flwyddyn Newydd Tseineaidd. Wrth ddatblygu'r arddangosfa a'r bartneriaeth tymor hir, croesawyd ein cydweithwyr o Amgueddfa'r Tri Cheunant ac Amgueddfa Gelf Dazú, yn ogystal â Llysgennad Tseinia yn y DU. Hon oedd un o'r arddangosfeydd mwyaf llwyddiannus yn hanes yr Amgueddfa, o safbwynt nifer yr ymwelwyr a barn ymwelwyr, a daeth dros 38,000 o bobl i'w gweld dros gyfnod o naw wythnos.

Mae projectau, hyfforddiant ac adroddiadau wedi dechrau cael eu llunio ym mlwyddyn olaf y cynllun peilot Goleufa Cymru (Beacons of Public Engagement) partneriaeth gyda Phrifysgolion Caerdydd a Morgannwg, Techniquet a BBC Cymru sy'n rhannu arferion gorau trwy gynnwys cynulleidfaoedd newydd yng ngwaith ymchwil cyrff addysg uwch.

Fformat y Cyfrifon

Caiiff y cyfrifon eu paratoi o dan Adran 9(4) o Ddeddf Amgueddfeydd ac Orielau 1992 ar ffurf a bennir gan Lywodraeth Cymru gyda chymeradwyaeth y Trysorlys. Mae copi o'r Cyfarwyddyd Cyfrifon ar gael gan y Cyfarwyddwr Cyllid. Mae'r cyfrifon yn cydymffurfio â gofynion y Datganiad o Arferion Cymeradwy (SORP 2005) 'Cyfrifyddu ac Adrodd gan Elusennau'.

Wedi'u hymgorffori i'r ffigurau cyfunol mae canlyniadau masnachu'r is-gwmni sy'n llwyr eiddo i Amgueddfa Cymru, sef Mentrau Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru Cyf. Y cwmni hwn sy'n gweithredu holl weithgareddau masnachu Amgueddfa Cymru. Mae cyfran Amgueddfa Genedlaethol y Glannau Abertawe Cyf, sef 50%, yn rhan o'r ffigurau hefyd. Dyma fenter ar y cyd, a gyfyngir gan warant, gyda Chyngor Dinas a Sir Abertawe, a'i phrif bwrpas oedd datblygu'r amgueddfa newydd yn Abertawe.

Canlyniadau Ariannol y Flwyddyn

Cafodd Amgueddfa Cymru £3,626,000 o adnoddau cyfunol net yn y flwyddyn ariannol hon (£2,621,000 yn 2009-10). Daeth cyfanswm o £32,997,000 o adnoddau i mewn (£32,673,000 yn 2009-10) a gwariwyd cyfanswm o £26,153,000 (£29,945,000 yn 2009-10). Y cynnydd net mewn cyllid ar gyfer y flwyddyn ar ôl ystyried yr holl enillion a cholledion wedi'u gwireddu a heb eu gwireddu oedd £17,444,000 (gostyngiad o £5,430,000 yn 2009-10). £96,996,000 oedd gweddillion y gronfa ar 31 Mawrth 2011 (£79,552,000 ar 31 Mawrth 2010). Cofnododd Mentrau Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru Cyf. elw cyn cymorth rhodd i'r Amgueddfa o £404,000 ar gyfer blwyddyn ariannol 2010-11 (£475,000 yn 2009-10).

Rheoli Risg

Mae'r Bwrdd, y Pwyllgorau a'r Cyfarwyddwyr yn ystyried y prif beryglon strategol, busnes a gweithredol y mae Amgueddfa Cymru'n eu hwynebu yn gyson, ac maent wedi sefydlu Grŵp Rheoli Risg i sicrhau bod peryglon yn cael eu hadolygu a'u hadrodd ar draws y sefydliad i gyd, a bod mesurau lliniaru cadarnhaol perthnasol ar waith. Mae'r systemau hyn wedi bod ar waith ers blyneddau lawer ac maent yn parhau i fod yn gwbl weithredol yn unol ag arferion gorau. Mae'r Pwyllgorau Adolygu Perfformiad ac Archwilio yn goruchwyllo gwaith y Grŵp Rheoli Risg, a byddant hefyd yn cyfeirio materion at y Grŵp Rheoli Risg i'w hasesu a'u gweithredu fel sy'n briodol. Hefyd, adolygir pob perygl yn flynyddol fel rhan annatod o'r broses cynllunio gweithredol, gan lywio asesiad anghenion yr archwiliad mewnol ac felly'r cynllun archwilio mewnol. Mae'r archwilwyr mewnol yn mynychu cyfarfodydd y Grŵp Rheoli Risg.

Mae fformat y gofrestr risg yn parhau i gael ei fireinio yn unol ag arferion gorau. Mae Amgueddfa Cymru bellach yn cadw Cofrestr Risg Sylfaenol (o risgiau uchel a chanolig) a Chofrestr Risg Eilaidd (o risgiau isel). Tra bod risgiau eilaidd yn cael eu hailwerthuso'n rheolaidd, mae'r pwyslais mwyaf ar y Gofrestr Risg Sylfaenol.

Ar ben hynny, mae Amgueddfa Cymru yn dal i gadw categori sgôr risg critigol. Mae'r ddwy risg a nodwyd y llynedd fel rhai 'critigol' (sef y risg i gyllid craidd yn y dyfodol ac atebolrwydd y cynllun pensiwn) wedi'u lleihau i sgôr risg 'uchel' erbyn hyn. Roedd hyn yn bosibl ar ôl gweithredu camau lliniaru, gan gynnwys mabwysiadu cyllideb tair blynedd i gwrdd â'r gostyngiad disgwylidig mewn dyraniadau cymorth grant gan Lywodraeth Cymru yn y dyfodol, tra ar yr un pryd, parhau i gyflwyno blaenoriaethau allweddol y Weledigaeth a chytuno ar gynllun adfer i leihau'r diffyg pensiwn (a ariennir yn bennaf trwy gynyddu cyfraniadau'r gweithwyr cyflogedig a chodi'r oedran ymddeol arferol). Nid oedd unrhyw risgiau wedi'u gwerthuso'n 'gritigol' erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

Dangosyddion Perfformiad

Fel 'sefydliad dysg', mae Amgueddfa Cymru yn parhau i ymrwymo i fonitro a gwerthuso ein gwaith mewn ffyrdd meintiol ac ansoddol. Tra bod ein dangosyddion perfformiad meintiol allweddol yn dangos darlun o berfformiad, mae data ansoddol o astudiaethau achos ac ati yn parhau i ddarparu golwg fanylach a chyfle i bwysu a mesur ein gwaith a'i gyfoethogi. Yn ystod 2010-11, fe wnaethom ddefnyddio fframwaith gwerthuso newydd sy'n manteisio ar y ddau dull. Bydd y pecyn hwn a'r targedau a bennwyd ar gyfer

2011-12 a thu hwnt, mewn cyfnod o gynt ariannol sylweddol yn y sector cyhoeddus, yn parhau i ganolbwyntio ar atgyfnerthu ein perfformiad rhagorol hyd yma, gan geisio sicrhau gwell canlyniadau i bobl Cymru trwy gyflawni ein Gweledigaeth tymor hir.

Fel y nodwyd ynghynt, cyfanswm yr ymweliadau â'n safleoedd yn 2010-11 oedd 1,656,340 (1,641,053 yn 2009-10), o gymharu â tharged o 1,550,000. Cafwyd 1,392,957 o ymweliadau â'r wefan yn ystod yr un cyfnod (1,253,630 yn 2009-10), sy'n dangos y graddau cynyddol y mae ymwelwyr yn dewis cyrchu gwybodaeth am ein gwaith ar-lein.

Mae ein gwaith ar wasanaethu'r sector addysg ffurfiol yn parhau i ffynnu gyda 233,713 o ymweliadau addysg ffurfiol (236,284 yn 2009-10) yn rhagori ar y targed o 229,000 o ymweliadau. Cafwyd 206,098 o ymweliadau addysg anffurfiol (259,446 yn 2009-10), sy'n well o lawer na'r targed o 170,000, ond yn is na'r flwyddyn gynt. Hefyd, cymerodd 29,163 o bobl ran mewn gweithgareddau addysgol dan arweiniad Amgueddfa Cymru a gynhaliwyd mewn llefydd heblaw'r amgueddfeydd eu hunain (33,530 yn 2009-10), a oedd ychydig yn is na'r targed o 30,000.

Rydym yn parhau i ddogfennu ein holl gasgliadau yn ôl canllawiau'r Ymddiriedolaeth Casgliadau, ac wedi parhau â'r rhaglen o roi'r holl gofnodion ar gyfrifiadur. Y nod yw sicrhau bod lefelau derbyniol o gofnodion cyfrifiadurol ar gyfer y gwrthrychau sydd yng nghasgliadau Amgueddfa Cymru. Yn ystod 2010-11, ac ar sail casgliad o 4,700,000 o eitemau, llwyddwyd i greu cofnodion rhestr eiddo cyfrifiadurol ar gyfer 57% o'r casgliadau (56% yn 2009-10), sy'n ein galluogi i adnabod eitem a nodi'i lleoliad yn gywir a chyflym. Llwyddwyd i greu cofnodion catalog llawn, sy'n cynnwys data academaidd a chyfeiriadau at gyhoeddiadau, ar gyfer 32.8% o'r casgliadau (32.5% yn 2009-10).

Benthycwyd eitemau i gyfanswm o 310 o leoliadau (339 yn 2009-10), gan gwrdd â'r targed.

Buddsoddiad Cyfalaf

Fel sail i gyflawni'r Weledigaeth, mae rhaglen sylweddol o waith cyfalaf yn parhau, gyda'r rhaglen cynllunio cyfalaf yn canolbwyntio ar ailddiffinio ein dwy amgueddfa fwyaf poblogaidd o ran ymwelwyr sef Sain Ffagan: Amgueddfa Werin Cymru ac Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd. Byddant yn esblygu yn ddwy amgueddfa gysylltiedig, yr Amgueddfa Genedlaethol Hanes Natur a'r Amgueddfa Gelf Genedlaethol.

Prif bwyslais y gwaith cychwynnol oedd sicrhau bod y casgliadau yn cael eu storio'n briodol. I gyd-fynd â hyn, aethpwyd i'r afael â llwyth gwaith cynnal a chadw sylweddol. Mae'r gwaith hwn bron wedi'i gwblhau bellach, sy'n sicrhau bod yr amgueddfeydd yn ddiogel ym mhob tywydd, ac yn cynnig gofod cyhoeddus gwell.

Dyma rai o brojectau'r Uwchgynllun yn ystod y flwyddyn:

Adnewyddu Oriolau Adain Orllewinol Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd

Yn ystod y flwyddyn, cwblhawyd y gwaith ffisegol angenrheidiol i drwsio to'r Adain Orllewinol. Mae'r oriolau hyn yn cael eu hailwampio er mwyn greu lleoedd i arddangos celf fodern a chyfoes. Agorodd yr oriolau cyntaf i'r cyhoedd ym mis Chwefror 2011, a'r gweddill ym mis Gorffennaf 2011.

Gofodau dysgu yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd

Cafodd tri gofod gwahanol eu hailddatblygu yn ystod 2010-11: yr hen ystafell addysg gwyddoniaeth, oriel Glanely, a'r ystafell bwyta brechdanau a ddefnyddir gan ysgolion. Ariannwyd y gwaith hwn gan Sefydliad Clore Duffield ac mae'r manau newydd ar agor i'r cyhoedd bellach.

Hefyd, defnyddiwyd arian gan Gyngor Sir Caerdydd o dan y Cynllun Treth Tirlenwi, yn ogystal ag arian cyfatebol gan Asiantaeth yr Amgylchedd, i greu ardal newydd i wella'r modd o arddangos gweithgareddau ymchwil cyfredol. Cwblhawyd y gwaith ac agorodd y manau dysgu i'r cyhoedd ym mis Ebrill 2011.

Creu Hanes yn Sain Ffagan

Fel y nodwyd eisoes yn yr adroddiad hwn, roedd Amgueddfa Cymru'n falch iawn o basio Cam 1 Cronfa

Dreftadaeth y Loteri am £8.75 miliwn tuag at gynllun £20 miliwn i ailddatblygu Sain Ffagan: Amgueddfa Werin Cymru. Roedd y cyhoeddiad hwn yn cynnwys sicrwydd o gyllid datblygu er mwyn datblygu cais Cam 2, i'w gyflwyno ym mis Chwefror 2012.

Yn ystod y degawd nesaf, byddwn yn datblygu Sain Ffagan yn safle sy'n adrodd hanes ein pobl a'n gwlad, o'r cyfnod cynnar hyd heddiw. Bydd y datblygiad yn gwella'r hyn a gynigir yn Sain Ffagan trwy wneud defnydd gwell o'r safle, a chyflwyno'r adeiladau a'r casgliadau hanes cymdeithasol cyfredol yng nghydestun ehangach hanes cenedlaethol Cymru.

Bydd llawer o'r casgliadau archaeolegol sy'n rhagflaenu'r cyfnod modern yn cael eu symud o Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd a'u hail-arddangos yn Sain Ffagan er mwyn adrodd stori fwy cyflawn. Y nod yw bodloni disgwyliadau ymwelwyr sydd am ddysgu mwy am wreiddiau Cymru a pham ei bod yn wlad mor amrywiol heddiw.

Ailstrwythuro ar gyfer y dyfodol o fewn cyd-destun arian cyhoeddus

Ers pennu blaenoriaethau'r Weledigaeth bum mlynedd yn ôl, mae Amgueddfa Cymru wedi parhau i ail-alinio'r dyraniadau ariannol er mwyn mynd ati i gyflawni'r blaenoriaethau hynny. Cynhaliwyd proses ailstrwythuro trwy gynnal arolwg blynyddol trylwyr o gyllidebau, ac mae trosiant naturiol staff a'r broses o gadw neu ddefnyddio arbedion cyllid yn y flwyddyn yn ddoeth, o gymorth i'r newidiadau hyn. Mae hyn yn mynd law yn llaw ag ymgais i gael mwy o hyblygrwydd o fewn cyllidebau, trwy leihau staff a chostau sefydlog eraill.

Roedd y paratodau cyn y cyhoeddiad y byddai llai o grantiau ar gael gan Lywodraeth Cymru dros y tair blynedd o 2011-12 ymlaen yn sbardun pellach i'r broses. Cynigiwyd diswyddiadau gwirfoddol mewn meysydd nad ydynt yn flaenoriaeth yn 2010-11, yn dilyn ymarferiad tebyg yn 2009-10. Roedd y mesurau ailstrwythuro hyn mor llwyddiannus nes bod Amgueddfa Cymru, er gwaetha'r lleihad mewn grantiau, wedi llwyddo i baratoi cyllidebau ar gyfer y tair blynedd nesaf – cyllidebau sydd nid yn unig yn rheoli effeithiau niweidiol y lleihad mewn grantiau, ond sydd hefyd yn cynnig sylfaen ar gyfer parhau i ail-alinio gwariant er mwyn gweithredu blaenoriaethau'r Weledigaeth.

Prisio Asedau Sefydlog

Roedd polisi cyfrifyddu blaenorol Amgueddfa Cymru ar brisio Asedau Sefydlog yn mynnu bod yr holl asedau'n cael eu hailbrisio gan arbenigwyr bob pum mlynedd, ar wahân i'r asedau treftadaeth a TG. Eleni, rydym wedi newid y polisi sy'n golygu mai dim ond asedau eiddo fydd yn destun proses ailbrisio bob pum mlynedd, yn hytrach nag asedau eraill dan benawdau ehangach offer, cerbydau neu osodiadau a ffitiadau eraill. Mae'r polisi cyfrifyddu yn cynnwys darpariaeth hefyd i ddefnyddio mynegeion i addasu'r asedau hynny sydd wedi'u hailbrisio'n broffesiynol, yn y blynyddoedd rhwng yr ailbrisiadau proffesiynol bob pum mlynedd. Daeth y polisi newydd hwn i rym ar 1 Ebrill 2010, sy'n golygu y bydd pob ased, heblaw asedau sy'n gysylltiedig ag eiddo, yn cael eu prisio ar sail y gost a gofnodwyd neu brisiadau blaenorol ar sail mynegeion. Ni wneir unrhyw addasiadau pellach i'r gwerthoedd hynny ar sail mynegeion.

Felly, cafodd asedau sy'n gysylltiedig ag eiddo eu hailbrisio'n broffesiynol ar 31 Mawrth 2011. Yn sgil hynny, bu cynnydd o £3.3 miliwn yng ngwerth llyfr net yr asedau eiddo hynny (ac eithrio Amgueddfa Genedlaethol y Glannau). Mae'r addasiad hwn yn sgil ailbrisio proffesiynol yn sylweddol is na'r addasiad oedd yn ofynnol ar ddyddiadau ailbrisio proffesiynol blaenorol, sy'n awgrymu fod defnyddio'r mynegeion yn y blynyddoedd interim yn fwy priodol dros y tymor pum mlynedd diwethaf.

Nid yw'r asedau treftadaeth a gafwyd cyn 1 Ebrill 2001 wedi eu cyfalafu, ac mae asedau treftadaeth a brynwyd neu a gafwyd fel rhoddion ers y dyddiad hwnnw wedi cael eu cofnodi ar sail eu cost neu brisant. Nid yw'r Ymddiriedolwyr yn credu bod modd cyfiawnhau costau sylweddol prisio casgliad mor fawr o asedau treftadaeth, ar sail budd yn erbyn cost, i gael yr hyn a fyddai'n ddim mwy na phris ar un eiliad benodol mewn amser. Yn sgil cyflwyno Safon Adrodd Ariannol 30 ar asedau treftadaeth, mae mwy a mwy o ofyniad datgelu yn ofynnol gyda'r asedau hynny. Trafodir hyn yn fanylach yn nodyn 10 y cyfrifon.

Mae'r Amgueddfa yn berchen ar 50% o eiddo Amgueddfa Genedlaethol y Glannau fel cwmni menter ar y cyd â Chyngor Dinas a Sir Abertawe. Gwelir manylion y budd yn y gyd-fenter yn nodyn 8 y cyfrifon. Gostyngodd gwerth yr eiddo £6.4m o gymharu â'r gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2010, yn dilyn proses ailbrisiio broffesiynol.

Caffael Sbesimenau

Unwaith eto, bu Amgueddfa Cymru yn ddigon ffodus i allu caffael nifer o eitemau pwysig iawn yn ystod y flwyddyn. Dim ond trwy gymorth hael cefnogwyr tymor hir fel Ymddiriedolaeth Derek Williams, y Gronfa Gelf a Chronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol yr oedd hyn yn bosibl. Mae Amgueddfa Cymru yn parhau i ddefnyddio ei Grant Caffael Sbesimenau yn fedrus iawn i ddenu cyllid ychwanegol gan sawl trydydd parti i'w galluogi i wella'r casgliadau cenedlaethol.

Dyma rai o'r caffaeliadau pwysig i'r casgliad celf:

- *Golygfa o'r Palazzo Loredan dell'Ambasciatore ar y Gamlas Fawr, Fenis* gan Francesco Guardi (1712-1793). Caffaelwyd am £85,000, gyda chymorth o £20,000 o'r Gronfa Gelf. Caffaelwyd y paentiad yn rhannol yn lle treth etifeddiaeth, ac aseswyd bod y paentiad yn werth £350,000.
- *Tirlun Cymreig gyda dwy fenyw yn gweu* gan William Dyce. Cafodd y llun hwn ei atal dan Drwydded Allforio a'i brynu am £557,218. Cafwyd grantiau o £166,000 gan y Gronfa Gelf a Chronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol. Derbyniwyd £25,000 gan roddwr, a chyfraniadau sylweddol eraill gan Noddwyr a Chyfeillion ac unigolion preifat eraill. Roedd Amgueddfa Cymru wedi gobeithio caffael y gwaith hwn ers cryn amser, gan mai dyma unig baentiad Cymreig yr arlunydd, a'r unig baentiad gan unrhyw arlunydd o'r cyfnod sy'n cyflwyno egwyddorion cyn-Raffaelaidd i destun Cymreig.
- *Castell Caerffili* gan Hendrik Danckerts (tua 1625-1680). Prynwyd oddi wrth Christie's am £8,750, mae'r gwaith hwn yn ychwanegiad gwerthfawr at y casgliad, ac ymhlith y darluniau cynharaf o Gymru yn y casgliad os nad y cynharaf un.
- Casgliad o 11 o ffotograffau Angus McBean o enwogion y byd adloniant, llawer ohonynt yn Gymry. Prynwyd am £8,800.
- *Yr Ymwelwyr* gan Keith Arnatt. 46 o brintiau gelatin arian, du a gwyn, a brynwyd am £52,440 gyda £26,220 o grant gan Ymddiriedolaeth Derek Williams.
- *Castell Cas-gwent* gan James Dickson Innes. Prynwyd am £26,000 gyda grant o £10,000 gan Ymddiriedolaeth Derek Williams.
- *Y Gwerthwr Rygiau, Tréboul* gan Christopher Wood. Prynwyd am £190,000 gyda grantiau o £55,000 gan Ymddiriedolaeth Derek Williams a £50,000 gan y Gronfa Gelf, a rhodd o £30,000.
- *And freely he goes lost Dylan Thomas* gan Ceri Richards. Prynwyd am £7,000 gyda grant o £3,500 gan Ymddiriedolaeth Derek Williams.
- *Bryn Rhwystrau* gan Clare Woods. Prynwyd am £13,600, gyda grantiau o £5,000 gan Gymdeithas Celf Gyfoes Prydain a £5,500 gan Ymddiriedolaeth Derek Williams.
- *Fenis, y Cyfnos, 1995* gan Howard Hodgkin. Prynwyd am £19,400, gyda grantiau o £9,000 gan Gronfa Celf Gyfoes Nerys Johnson a £9,000 gan Ymddiriedolaeth Derek Williams.
- *Lleoliad* gan Anthony Shapland. Prynwyd am £5,500 gyda 50% o grant gan Ymddiriedolaeth Derek Williams.
- *Coeden* gan Lida Abdul. Rhodd gan Ymddiriedolaeth Derek Williams, a gafwyd o Oriol Giorgio Persano, Torino, am £22,610.

- *Y Trê*n gan Olga Chernysheva. Prynwyd am £21,620 fel Gwobr Brynu Artes Mundi 4.
- *Rhwymiad llyfr gweddi*, tua 1868, cynlluniwyd gan William Burges, gwnaed gan Jes Barkentin, Llundain. Prynwyd am £21,000
- *Cerflun crochenwaith caled wedi'i ffwrndanio â choed* gan Jacqueline Lerat (1920-2009). Prynwyd am £7,650, gyda chymorth grant o £3,825 gan Ymddiriedolaeth Derek Williams.

Roedd caffaeliadau sylweddol i'r casgliad Archaeoleg a Niwmismateg yn cynnwys:

- Llestri Langstone. Prynwyd am £21,000. Powlenni a hidlydd gwin wedi'u haddurno mewn Arddull Celfyddyd Geltaidd (La Tène).

Roedd datblygiadau sylweddol gan yr Adran Bywyd Gwerin yn cynnwys:

- Tŷ Crwn Moel-y-gaer. Yn seiliedig ar dystiolaeth archaeolegol a gloddiwyd ar safle gwreiddiol ar Fynydd Helygain, Rhosesmor, Sir y Fflint.

Yn ogystal â phrynu eitemau ar gyfer y casgliad, mae'r Grant Caffael Sbesimenau hefyd yn cael ei ddefnyddio i gefnogi ymchwil gwaith maes, gwaith cloddio archaeolegol a gweithgareddau eraill er mwyn gwella'r casgliadau ym mhob maes, gan gynnwys diwydiant a gwyddorau naturiol.

Gweithgarwch Ymchwil

Mae ymchwil wrth wraidd holl swyddogaethau a hygredd amgueddfa genedlaethol. Mae llawer o'r meysydd arbenigol sy'n cael sylw gan ein staff wedi dirywio mewn prifysgolion. Felly, mae gennym gyfraniad allweddol i'w wneud at wella dealltwriaeth o dreftadaeth, diwylliant ac amgylchedd naturiol Cymru a'i lle yn y byd, a sbarduno mwy o ddiddordeb yn y meysydd hyn.

Parhaodd amrywiaeth eang o weithgarwch ymchwil yn 2010-11, a oedd yn cyd-fynd â themâu ein rhaglenni caffael ac arddangos yn ogystal â'n gweithgareddau craidd eraill. Mae Bwrdd Ymchwil yn datblygu ac yn monitro gweithgarwch ymchwil, gan sicrhau bod ymchwil yn gydnaws â'n Gweledigaeth ac yn derbyn cymaint o adnoddau ag sy'n bosibl o fewn ein cyllidebau cyfyngedig.

Ar ôl creu Polisi Ymchwil newydd a Strategaeth Ymchwil gyffredinol, ac ar ôl cael ein cydnabod yn Sefydliad Ymchwil Annibynnol (hynny yw, yn gyfwerth â phrifysgol) gan Gyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau a Chyngor Ymchwil yr Amgylchedd Naturiol, mae fframweithiau ymchwil wedi'u creu ar gyfer ein holl feysydd pwnc i sicrhau bod ymchwil yn y dyfodol yn canolbwyntio fwyfwy ar gyflawni'r Weledigaeth.

Dyma rai o brojectau ymchwil y flwyddyn:

- Nodweddion ac arwyddocâd metamorffedd gradd isel yng Nghymru a lleoliadau geotectonig tebyg eraill ledled y byd.
- Elfennau geocemeg a phetroleg creigiau Palaeosöig cynnar Ynys Môn (mewn partneriaeth â NERC Isotope Geology Centre yn Arolwg Daearegol Prydain, Y Brifysgol Agored ac Amgueddfa Hanes Natur Dresden).
- Project 3 blynedd wedi'i ariannu gan Ymddiriedolaeth Leverhulme (bellach ym mlwyddyn 3) i baratoi llawlyfr ar fectorau sboncwyr y dail a sboncwyr planhigion (Hemiptera) clefydau planhigion.
- Creu pecyn tacsonomig arlein ar gyfer malwod tir Kenya, sefydlu gwefan a chynnwys tri theulu yn 2010-11.
- Tarddiad a phwysigrwydd elfennau cerrig gleision rhyolitig o Gôr y Cewri ac ymchwil i werth cemeg siron wrth bennu pa mor gyffredin ydynt.

- Mwyneiddiad eilaidd ym Mynydd Parys – tystiolaeth o gyfoethogi uwch-genyn mewn dyddodion sylffid enfawr.
- Aneddiadau palaeolithig yng Nghymru, cyhoeddi canlyniadau'r gwaith cloddio yn Ogor Pontnewydd, Sir Ddinbych.
- Ymchwil ar aneddiadau a diwylliant Oes y Llychlynwyr/y canoloesoedd cynnar yng Nghymru yn seiliedig ar waith cloddio yng ngrannog llyn Syfaddan, Powys a Llanbedrgoch, Ynys Môn.
- Catalogio a chyhoeddi celc o geiniogau canoloesol o'r Fenni, Sir Fynwy, a gaffaelwyd trwy'r Ddeddf Trysorau.
- Astudiaeth o gynrychiolaeth cymunedau, gan gynnwys rhai heb gynrychiolaeth ddigonol, trwy arddangosfeydd a phrojectau wedi'u curaduro ar y cyd, swyddogaeth casglu cyfoes yn y broses hon ac ymchwilio'r canlyniadau.
- Dehongli a chyfleu casgliadau pwysig Amgueddfa Cymru o gelf Ffrengig o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg a chelf Ewropeaidd cyn y 1950au ar gyfer arddangosfeydd newydd yn orielau'r Bloc Canolog ar eu newydd wedd.
- Deunyddiau a thechnegau Richard Wilson, ei gyfoedion a'i ddilynwyr; un o nifer o brojectau sy'n cyd-fynd â thrichanmlwyddiant yr artist.
- Astudiaeth o geocemeg y metel hybrin braciopodau, gyda'r bwriad o amcangyfrif tymheredd hen gefnforoedd (palaeo-thermometreg). Project PhD NERC CASE wedi'i oruchwylio gan Amgueddfa Cymru a Phrifysgol Caerdydd.
- Dosbarthiad daearyddol a thacsonomeg 21 o rywogaethau Heboglys Prydeinig a restrir fel rhai o bryder cadwraeth gan y Cynllun Gweithredu ar Fioamrywiaeth (ar y cyd â Chymdeithas Fotaneg Gwledydd Prydain).

Codi Arian a Gwirfoddolwyr

Eleni oedd blwyddyn lawn gynta'r strwythur staff newydd yn yr Adran Codi Arian a Datblygu. Derbyniwyd incwm o £675,000 yn erbyn targed o £1,004,000, ac addewid o £443,000 i ddod eto. Roedd cyfran helaeth o'r swm olaf yn sgil cadw'r arian a gadarnhawyd gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri ar gyfer gwaith Cam 1 project ailddatblygu Sain Ffagan: Amgueddfa Werin Cymru fel swm a dynnwyd i lawr ar gyfer 2011-12, er mwyn rheoli llif arian y project yn well.

Dau project tymor hir oedd canolbwynt gwaith yr Adran. Treuliwyd cryn dipyn o amser yn gofalu am grantiau a rhoddion mawr a gafwyd tuag at ddatblygu'r orielau celf a hanes natur a'r gofodau dysgu yn Adain Orllewinol Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd. Sicrhawyd rhagor o grantiau a rhoddion atodol ar gyfer y projectau hyn wrth i feysydd newydd ddod i'r fei, gan gynnwys grantiau gan Sefydliad Foyle a Sefydliad Henry Moore, er mwyn gwneud gwaith ychwanegol yn yr orielau celf.

Yn ystod 2010-11, cyfrannodd yr Adran yn helaeth at gais Cam 2 project ailddatblygu Sain Ffagan, a nodi a dechrau gosod y sylfeini ar gyfer y cam hwnnw. Hefyd, cefnogodd yr Adran project i ddatblygu consortiwm o ddarparwyr Garddwriaeth Treftadaeth, gan gynnwys Sain Ffagan, a pharhau i ariannu'r rhaglen Archwilio Natur er mwyn dehongli bioamrywiaeth yn Sain Ffagan. Roedd cais am arian Ewropeaidd gwerth €125,000 tuag at project partneriaeth sy'n trafod meincnodi ac arferion gorau mewn 12 amgueddfa awyr agored ledled Ewrop yn llwyddiannus hefyd. Cwblhawyd arddangosfa yn Oriol 1 i ddathlu pen-blwydd Cymdeithas Adeiladu'r Principality yn 150 oed, fel rhan o'u nawdd, ym mis Ionawr, gydag uwch staff y Principality yn ystyried y cyfan yn llwyddiant mawr.

Cafodd projectau mewn amgueddfeydd eraill gymorth hefyd, fel *Wyneb yn Wyneb â'r Gorffennol* yn Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru a gafodd nawdd gan Ymddiriedolaeth Aurelius, tra cafodd projectau eraill yn yr amgueddfa hon gymorth gan Ymddiriedolaeth Elusennol G C Gibson a rhoddwr unigol preifat.

Cafwyd llwyddiannau amlwg eraill, gyda 138 o Noddwyr bellach wedi ymaelodi â ni, sef y nifer uchaf hyd yma. Parhaodd yr Adran i weithio gyda'r Bwrdd Datblygu, gydag aelodau'r Bwrdd yn mynd ati o'u gwirfodd i roi cyngor a chysylltiadau gwerthfawr ar gyfer ffynonellau ariannu posibl eraill, mewn blwyddyn brysur llawn gweithgarwch.

Cafwyd £83,000 o roddion cyffredinol gan y cyhoedd, sef 7.7% yn uwch na'r llynedd, a'r uchaf ers sawl blwyddyn.

Parhaodd ein Cyfeillion i gefnogi gwaith Amgueddfa Cymru mewn tair prif ffordd. Yn gyntaf, fel llysgenhadon dros waith Amgueddfa Cymru, gan ddarparu rhaglen o sgysiau, teithiau a gweithgareddau eraill sy'n ategu gweithgareddau addysgol Amgueddfa Cymru.

Yn ail, mae'r Cyfeillion yn darparu grŵp o wirfoddolwyr i gefnogi gweithgareddau Amgueddfa Cymru. Mae Cyfeillion yn cyfarfod a chyfarwng grwpiau ac unigolion fel grwpiau Cyfeillion amgueddfeydd eraill neu ymwelwyr achlysurol sydd â diddordeb, ac yn cynorthwyo staff curadurol gyda phob math o weithgareddau. Mae'n bwysig nodi bod Amgueddfa Cymru'n ystyried hyn yn ychwanegiad gwerthfawr, yn hytrach na gwirfoddolwyr yn cyflawni gwaith craidd. Cyfrannodd ein Cyfeillion 109 o oriau gwirfoddol yn yr amgueddfeydd yn ystod 2010-11.

Yn drydydd, mae'r Cyfeillion hefyd yn rhoi cymorth ariannol i nifer o brojectau ac, eleni, cyfrannwyd yn hael tuag at ailwampio'r Adain Orllewinol Uchaf yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, projectau yn Sain Ffagan a noddi'r perfformiadau organ yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd. Bu cydgysylltydd gwirfoddolwyr Amgueddfa Cymru hefyd yn gweithio gyda chydweithwyr ledled Amgueddfa Cymru i wella'r cyfleoedd i wirfoddoli. O ganlyniad, derbyniodd Amgueddfa Cymru 4,685 awr o gyfraniad gan wirfoddolwyr yn ystod 2010-11. Cafodd hyn ei adlewyrchu y tu ôl i'r llenni, gyda gwirfoddolwyr yn gweithio mewn adrannau curadurol, myfyrwyr ar leoliadau rhan-amser yn datblygu eu cyfleoedd profiad gwaith a gwirfoddolwyr yn gweithio ym mlaen y tŷ yn cynnig teithiau tywys o amgylch yr arddangosfeydd amrywiol. Mae Amgueddfa Cymru yn ddiolchgar iawn iddynt am eu hymrwymiad i'r elfen hon o'n gweithgareddau sy'n prysur gynyddu.

Perfformiad Talu Prydlon

Mae Amgueddfa Cymru'n cefnogi amcanion cod ymarfer *Better Payment* Trysorlys Ei Mawrhydi a'i nod yw talu anfonebau dilys o fewn 30 diwrnod. Saith diwrnod calendr oedd cyfartaledd y cyfnod talu anfonebau yn ystod 2010-11 (7 niwrnod yn 2009-10), sy'n cynnwys 98% (yn ôl nifer) o anfonebau a dalwyd o fewn 30 diwrnod (98% yn 2009-10). Ni wnaed taliad llog dan Ddeddf Taliadau Hwyr o Ddyledion Masnachol (Llog) 1998 (£Dim yn 2009-10).

Cynaliadwyedd

Yn ystod 2010-11, parhaodd yr Amgueddfa i ddatblygu arferion a dulliau cyfathrebu a ehangodd gynaliadwyedd ein gweithgarwch dyddiol, yn ogystal â dealltwriaeth ein hymwelwyr o faterion sy'n ymwneud ag effaith newid yn yr hinsawdd a'r bygythiad i fioamrywiaeth leol a byd-eang.

Defnyddiodd Amgueddfa Cymru ei phartneriaeth ffurfiol â'r Ymddiriedolaeth Garbon i'n helpu i leihau ein hól troed carbon. Yn ystod y flwyddyn, buddsoddwyd £260,000 gennym mewn gwaith cyfalaf er mwyn lleihau ein defnydd o ynni ar draws ein holl safleoedd, gan gynnwys gweithredu'r system gwres a phŵer cyfunedig a fydd yn gwella effeithlonrwydd ynni yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd. Bu Amgueddfa Cymru hefyd yn helpu'r Ymddiriedolaeth Garbon trwy greu DVD i gofnodi'r gwaith a gyflawnir yn yr Amgueddfa i leihau ein hól-troed carbon, a bydd y DVD yn cael ei ddefnyddio i dynnu sylw at fanteision y bartneriaeth ar draws y sectorau cyhoeddus a phreifat. Mae wedi'i gynnwys ar y tudalennau cynaliadwyedd sydd newydd eu lansio ar y wefan. Hefyd, mae Amgueddfa Cymru wedi cofrestru i'r Ymrwymiad Lleihau Carbon, cynllun y Llywodraeth sydd â'r nod o leihau effeithiau amgylcheddol sefydliadau mawr y DU, a byddwn yn cyflwyno data ar gyfer asesiad.

Y Polisi ar Gronfeydd Cadw

Fel corff sy'n casglu a chynnal asedau treftadaeth, gan gynnwys tir ac adeiladau, er mwyn cyflawni ei nodau ac amcanion, mae'r polisi ar gronfeydd cadw a nodir yma yn berthnasol i gronfeydd arian i'w wario yn unig, ac nid i'r cyfanswm arian a ddelir.

Mae'r polisi hwn yn parhau i fod yn ddibynnol ar, ac wedi'i gyfyngu gan, yr awdurdod a roddwyd gan Lywodraeth Cymru yn Natganiad Rheoli a Memorandwm Cyllid yr Amgueddfa a oedd yn cyfyngu'r cronfeydd cadw ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2010-11 i 2% o'i chymorth grant, gydag eithriadau rhag unrhyw gyfyngiad o ran Grant Prynau Sbesimenau ac incwm hunangynhyrchiol. Gall eithriadau pellach fod ar gael ar gais mewn perthynas ag Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, Abertawe (i adlewyrchu'r trefniant cyd-ariannu gyda Dinas a Sir Abertawe) a phrojectau cyfalaf sy'n pontio'r cyfnod ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

Gall cyfyngiadau ar gario arian drosodd lesteirio rheolaeth ariannol ddarbodus trwy annog gwariant annoeth er mwyn osgoi colli'r cyllid os bydd y gweddillion diwedd blwyddyn yn fwy na'r cyfyngiad a gytunwyd ar gario arian drosodd. Mae cyfyngiadau ar gario arian drosodd yn arbennig o niweidiol i gynllunio cyllideb ar adeg pan fo arian cyhoeddus yn debygol o gael ei gyfyngu'n sylweddol am nifer o flynyddoedd i ddod. Roedd yr Amgueddfa wedi paratoi ar gyfer derbyn llai o ddyraniad cymorth grant ar gyfer 2011-12 a thu hwnt ac wedi cynllunio'n briodol i gynyddu cyfanswm yr arian a gariwyd drosodd, ar ddiwedd 2010-11. Felly, mae'n braf dweud bod Llywodraeth Cymru wedi cytuno â'r egwyddor y dylai'r Amgueddfa geisio lleihau effeithiau'r toriadau i gymorth grant y dyfodol trwy fanteisio ar arbedion arian parod sy'n codi yn ystod y flwyddyn er mwyn lleddfu effaith y gostyngiadau hynny yn y dyfodol. Cytunodd Llywodraeth Cymru i gais yr Amgueddfa i gynyddu'r cyfyngiad ar gario arian drosodd ar ddiwedd 2010-11 o 2% i 6%. Trwy wneud hyn, bydd Amgueddfa Cymru'n gallu parhau i gyflawni blaenoriaethau rheng flaen ei Gweledigaeth er gwaethaf toriadau grant y Llywodraeth.

Diolch i ddulliau darbodus Amgueddfa Cymru o gadw arbedion y flwyddyn dros y blynyddoedd diwethaf, yn ogystal ag effaith cynnig diswyddiadau gwirfoddol i staff, mae Amgueddfa Cymru wedi sicrhau bod ganddi ddigon o adnoddau ariannol i ymateb i heriau'r dyfodol. Cafodd yr arian dros ben a gadwyd uwchlaw'r cyfyngiad o 6% ei fuddsoddi fel blaendaliadau'r cyfraniad cyflogwr i'r Cynllun Pensiwn, ac felly mae'n helpu'r mesurau i leihau diffygion ariannol y cynllun wrth leihau costau cyflogaeth yn y blynyddoedd nesaf.

Cynhelir cronfeydd preifat ar wahân ac fe'u nodir yn y cyfrifon. Nid oes unrhyw derfyn ar gario'r rhain drosodd, a pholisi Amgueddfa Cymru yw adeiladu'r cronfeydd hyn a'u defnyddio ar brojectau a chynlluniau Cyfalaf nad oes modd derbyn cyllid craidd na chymorth grant ar eu cyfer, gan gadw o fewn cyfyngiadau ar ddefnydd o fewn Cronfeydd Preifat. Nid yw Amgueddfa Cymru'n bwriadu lleihau'r cronfeydd preifat cyfyngedig sydd ganddi trwy ddefnyddio'r cronfeydd hynny i wneud iawn am ddiffyg tymor byr mewn cymorth grant referniw.

Caiff elw'r is-gwmni masnachu sy'n llwyr eiddo i'r Amgueddfa, sef Mentrau Amgueddfeydd ac Oriellau Cenedlaethol Cymru Cyf, ei ddefnyddio i ddarparu cyllid ychwanegol tuag at nodau ac amcanion Amgueddfa Cymru. Ar adegau, gall hyn olygu ail-fuddsoddi elw yn yr is-gwmni masnachu er mwyn gwella'r elw masnachu ymhellach. Bydd y trefniadau i drosglwyddo'r elw i Amgueddfa Cymru hefyd yn rhoi ystyriaeth briodol i gadw goblygiadau treth y gwaith masnachu mor isel â phosibl.

Er gwaetha'r anawsterau presennol ynghylch arian cyhoeddus a her y sefyllfa economaidd o ran codi arian o ffynonellau preifat, mae Amgueddfa Cymru yn benderfynol o barhau â'r cynllun tymor hir o ddatblygu cyfalaf a gwneud gwaith adnewyddu yn ei safleoedd a chyflawni blaenoriaethau'r Weledigaeth. Er mwyn ariannu'r datblygiadau hyn yn rhannol a rheoli cyllidebau'n ddarbodus, mae'n hanfodol cadw'r hyblygrwydd mwyaf posibl wrth gadw cronfeydd, ar ffurf cario arian drosodd, cronfeydd preifat a chadw elw masnachol.

Cyfanswm y Cronfeydd ar 31 Mawrth 2011 oedd £96,996,000. Ceir dadansoddiad yn y nodiadau sy'n cyd-fynd â'r Cyfrifon Ariannol.

Polisi a Pherfformiad y Buddsoddiadau

Rheolir buddsoddiadau cronfeydd preifat Amgueddfa Cymru gan yr ymgynghorwyr Barclays Wealth. Mae polisi buddsoddi Amgueddfa Cymru'n derbyn cyfnewidioldeb tymor byr wrth geisio sicrhau enillion buddsoddi cadarnhaol yn dilyn effeithiau chwyddiant ac yn cydnabod y gall gwerth cyfalaf newid yn sylweddol o bryd i'w gilydd. Hefyd, mae elfen sylweddol yn cael ei chadw mewn cyfrifon arian parod, i fod ar gael i'w buddsoddi yn rhaglen gyfalaf Amgueddfa Cymru. Caiff perfformiad y cronfeydd hyn ei adolygu'n gyson, gan newid y portffolio fel sy'n briodol i'r risg. Yn erbyn cefndir yr adferiad mewn prisiau ecwiti, cynyddodd gwerth y portffolio'n sylweddol yn ystod y flwyddyn o £1,907,000 i £2,090,000.

Hefyd, cadwodd Amgueddfa Cymru, trwy gymynroddion, fuddsoddiad ecwiti mewn 11 cwmni o'r radd flaenaf. Cynyddodd gwerth y portffolio hwn hefyd yn ystod y flwyddyn o £66,000 i £68,000.

Rhwymedigaethau Pensiwn

Mae gan Amgueddfa Cymru gynllun pensiwn â buddion wedi'u diffinio sydd ar gael i'r holl staff parhaol. Fel y mwyafrif helaeth o gynlluniau o'r fath, mae prisiau blynyddol diweddar a welir ar y fantolen yn dangos diffyg ariannol o gymharu â rhwymedigaethau'r Cynllun. Mae trafferthion y marchnadoedd ecwiti, ynghyd â'r rhwymedigaethau cynyddol dan y Cynllun yn sgil ffactorau fel yr aelodau'n byw'n hirach, yn golygu bod Cynlluniau o'r fath dan bwysau, gyda llawer ohonynt yn cau yn y blynyddoedd diwethaf. Yn wyneb hyn felly, mae'n braf nodi bod y prisiau a welir ar fantolen eleni, fel y'i cyfrifwyd dan Safon Adrodd Ariannol (FRS) 17, yn dangos fod y diffyg ariannol wedi gostwng o £27.182m i £13.326m. Mae'r cynnydd yng ngwerth asedau yn fwy na'r disgwyliadau actiaraidd tra bod y rhwymedigaethau wedi gostwng oherwydd sawl ffactor, gan gynnwys newidiadau i'r cyfraddau disgownt. Ceir rhagor o fanylion am sut y cyfrifir costau pensiwn yn y nodyn ar bolisiau cyfrifyddu sydd yn y cyfrifon, ac mae gofynion datgelu FRS 17 i'w gweld yn nodyn 16 y datganiadau ariannol.

Yn ystod y flwyddyn, cytunodd Amgueddfa Cymru ac Ymddiriedolwyr y Cynllun ar brisiau actiaraidd tair blynedd y cynllun hyd 31 Mawrth 2009, ac yn fwy arwyddocaol, ar y cynllun adfer cysylltiedig i ddileu diffyg ariannol y Cynllun. Bydd y cynllun yn cael gwared ar y diffyg ariannol dros gyfnod estynedig, gan adlewyrchu cynhaliaeth y Cynllun dan Warant y Goron a bod y Rheoleiddiwr Pensiwn yn derbyn y cynigion. Gydag Amgueddfa Cymru wedi cynyddu cyfraniadau'r cyflogwr i 21.3% ychydig flynyddoedd yn ôl, mae'r cynllun adfer yn adleisio pecyn o fesurau y cytunwyd arnynt ag Ymddiriedolwyr y Cynllun, ar ôl ymgynghori'n fanwl â'r aelodau (gan gynnwys cyfres o opsiynau ar gyfer newid). Mae'r mesurau hyn yn cynnwys cynyddu cyfraniadau'r gweithwyr cyflogedig, addasu'r oedran ymddeol arferol i 65 a mwy o hyblygrwydd ynghylch troi hawliau pensiwn yn arian. Mae creu'r mesurau hyn, a'r effaith y byddant yn ei chael ar y cynllun adfer, yn golygu bod Amgueddfa Cymru yn gallu cadw at y fframwaith presennol, sef cynllun pensiwn â buddion wedi'u diffinio, yn seiliedig ar gyflog terfynol, ac felly denu a chadw gweithwyr o safon.

Roeddem yn falch iawn o dderbyn hwb ariannol un-tro gwerth £150,000 gan Lywodraeth Cymru i'r Cynllun yn ystod 2010-11. Ar ben hynny, ac fel y soniwyd eisoes yn yr adroddiad hwn, roedd Amgueddfa Cymru yn gallu talu blaensymiau ar gyfraniadau cyflogwr i'r Cynllun, gwerth £1.382m, erbyn diwedd y flwyddyn – diolch i gamau gweithredu darbodus Amgueddfa Cymru cyn y toriadau mewn cymorth grant gan sicrhau cronfa wrth gefn ar ddiwedd 2010-11. Bydd y blaensymiau hyn yn lleihau'n raddol dros y blynyddoedd nesaf gan helpu i reoli cyllidebau a pharhau i ddarparu gwasanaethau rheng-flaen, wrth roi hwb i'r Cynllun Pensiwn yn sgil derbyn y cyfraniadau hyn yn gynnar.

Polisiau sy'n Ymwneud â Staff

Cyfle Cyfartal

Mae Amgueddfa Cymru'n parhau i weithredu a monitro ei chynlluniau a'i pholisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth i sicrhau bod cydraddoldeb ac amrywiaeth yn rhan annatod o bopeth y mae'n ei wneud. Mae hyn yn cynnwys gweithdrefnau'n ymwneud â recriwtio, cyflogi a gwirfoddoli a'r gwasanaethau a gynigir i'r cyhoedd. Yn ystod hydref 2010, fe adolygodd Amgueddfa Cymru ei holl bolisiau a gweithdrefnau adnoddau dynol yn unol â'r newidiadau a gyflwynwyd gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Yn ystod 2010, Amgueddfa Cymru oedd yr amgueddfa gyntaf yn y DU i'w henwi'n Hyrwyddwr Amrywiaeth Stonewall. Fel rhan o'r ymrwymiad hwn i sicrhau cydraddoldeb ledled holl feysydd amrywiaeth, cyfrannodd Amgueddfa Cymru at Fyngai Cydraddoldeb blynyddol Stonewall. Cafwyd adborth sylweddol o'r arolwg dienw hwn o'r holl weithwyr. Mae Amgueddfa Cymru wrthi'n datblygu Cynllun Gweithredu i fynd i'r afael â rhai o'r materion a godwyd.

Yn ogystal â'r gwaith a wnaed gyda Mencap Cymru a Gyrfa Cymru, mae Amgueddfa Cymru wedi bod yn gweithio gydag Ymddiriedolaeth Shaw, Prince's Trust Cymru a DART i gynnig lleoliadau i bobl anabl i'w helpu i ddatblygu sgiliau fel y gallant ddechyd i'r gwaith. Hefyd, cynigiodd Amgueddfa Cymru brofiad gwaith penodol i fyfyrwyr ag anghenion addysgol arbennig ac anabledau eraill, ac mae'n parhau i ddatblygu'r rhain.

Ymgynghori â Staff

Mae Amgueddfa Cymru'n parhau i gydymffurfio â rheoliadau Gwybodaeth ac Ymgynghori 2005, gan ymgynghori gyda staff, yn uniongyrchol a thrwy undebau cydnabyddedig, ar y prif newidiadau yn y sefydliad. Mae'r gofyniad cyfreithiol hwn i ymgynghori gan ddefnyddio amrywiol dulliau atodol yn cynnwys cyfarfodydd staff, cyfarfodydd adran, gweithgorau, e-bost a mewnrwyd a dulliau anffurfiol o gyfathrebu fel y bo'n briodol. Mae Amgueddfa Cymru hefyd wedi parhau i gynnal ei Fforwm Staff yn rheolaidd bob deufis, lle mae'n trafod materion o bwys gyda chynrychiolwyr undebau llafur cydnabyddedig.

Hyfforddi staff

Mae Amgueddfa Cymru'n parhau i fuddsoddi amser ac adnoddau trwy ddarparu cyfleoedd datblygu a hyfforddiant (ffurfiol ac anffurfiol) i'w holl staff. Mae Amgueddfa Cymru wedi clustnodi statws Buddsoddwyr Mewn Pobl fel ffon fesur allanol hollbwysig o'r ymrwymiad hwn. Mae Big Pit: Amgueddfa Lofaol Cymru, Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru, Amgueddfa Lechi Cymru ac Amgueddfa Genedlaethol y Glannau wedi ennill yr achrediad hwn. Mae Sain Ffagan: Amgueddfa Werin Cymru ac Amgueddfa Wlân Cymru yn gweithio tuag at asesiad.

Data Absenoldeb Salwch

Mae gan Amgueddfa Cymru bolisiau i gefnogi'r broses o reoli absenoldeb o'r gwaith. I Amgueddfa Cymru, mae unrhyw absenoldeb dros 28 diwrnod yn olynol yn absenoldeb tymor hir. Mae pob absenoldeb yn cael ei gofnodi a'i fonitro gan reolwyr llinell a'r Adran Adnoddau Dynol. Roedd absenoldebau ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2011 yn 3% o'i gymharu â 4.26% y flwyddyn flaenorol.

Adroddiad ar Dâl

Mae gan Amgueddfa Cymru system gyflogau a graddau a gytunwyd, a gyflwynwyd yn benodol er mwyn sicrhau triniaeth deg a chyfiawn i bawb. Mae'n cwmpasu pob gweithiwr, ac eithrio'r Cyfarwyddwr Cyffredinol, gan mai Llywodraeth Cymru sy'n pennu telerau ac amodau ei benodiad ef. Mae proses apelio annibynnol ar gael er mwyn ystyried materion yn ymwneud â graddfeydd.

Bob blwyddyn, mae gweithgor yn ystyried pecyn cyflogau Amgueddfa Cymru ac yn datblygu cylch cyflog (cynnig) sy'n cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru i'w gymeradwyo ac sy'n sail i drafodaethau gydag undebau llafur cydnabyddedig. Mae pecyn cyflogau ac amodau newydd ar gyfer Amgueddfa Cymru gyfan yn deillio o hyn. Rhaid cydymffurfio â'r rhain tan y cylch trafod nesaf. Mae cynnydd blynyddol o dan y cylch cyflogau'n dibynnu ar system Amgueddfa Cymru o adolygiadau datblygu personol. Mae'r holl staff yn derbyn elfennau chwyddiant o fewn y cylch cyflogau y cytunwyd arnynt.

Mae cyflog y Cyfarwyddwr Cyffredinol yn cynnwys cyflog sylfaenol a bonws blynyddol posibl. Y Pwyllgor Penodiadau a Chyflogau, sy'n cynnwys y Llywydd, yr Is-lywydd, y Trysorydd, yr Athro John Last, Haydn Edwards, Miriam Griffiths a Gareth Williams sy'n cytuno ar faint y bonws (hyd at uchafswm o 10% o'i gyflog). Mae perfformiad y Cyfarwyddwr Cyffredinol yn cael ei adolygu yn erbyn set o amcanion a bennwyd ymlaen llaw, a bydd y Pwyllgor yn ystyried y gwerthusiad hwn wedyn. Caiff canran o unrhyw fonws ei gyfuno gyda'i gyflog blynyddol, a chaiff y swm hwnnw ei benderfynu ar sail canllawiau Llywodraeth Cymru.

Rhestrir aelodau Bwrdd Cyfarwyddwyr yr Amgueddfa ar dudalen 18 ac mae rhagor o fanylion am daliadau a budd-daliadau pensiwn y Cyfarwyddwyr yn nodyn 7(c) i'r Cyfrifon, ac mae'r wybodaeth honno'n destun archwiliad. Nid oes unrhyw un o'r Cyfarwyddwyr ar gytundeb tymor penodol, a chyflogir pob un, heblaw'r Cyfarwyddwr Cyffredinol, o dan delerau ac amodau safonol Amgueddfa Cymru. Mae unrhyw newidiadau i delerau ac amodau'r Cyfarwyddwr Cyffredinol yn amodol ar gytundeb y Pwyllgor Penodiadau a Chyflogau a Llywodraeth Cymru, lle bo hynny'n briodol.

Deuddeg mis yw'r cyfnod rhybudd ar gyfer y Cyfarwyddwr Cyffredinol. Mae cyfnodau rhybudd Cyfarwyddwyr eraill yn amrywio yn ôl hyd eu gwasanaeth. Mae angen rhoi wythnos o rybudd am bob blwyddyn o wasanaeth (ac 1 wythnos ychwanegol) hyd at uchafswm o 13 wythnos. Dyma ddyddiadau cychwyn cyflogaeth y Cyfarwyddwyr:

David Anderson (Cyfarwyddwr Cyffredinol)	11 Hydref 2010
Mark Richards	25 Ionawr 1999
John Williams-Davies	1 Medi 1973
Michael Tooby	1 Ionawr 2000
Robin Gwyn	1 Chwefror 2001
Neil Wicks	27 Mehefin 2011

Mae cytundeb dileu swyddi safonol Amgueddfa Cymru yn cynnwys darpariaeth ar gyfer iawndal am derfynu swydd yn gynnar. Yn dilyn ymddeoliad Jon Sheppard fel Cyfarwyddwr Cyllid ar 2 Mai 2011, cynigiodd Amgueddfa Cymru i amrywio cyfnodau rhybudd pob Cyfarwyddwr (ac eithrio'r Cyfarwyddwr Cyffredinol) i 6 mis, er mwyn sicrhau mwy o barhad a chysondeb yng ngwaith deiliaid y prif swyddi. Cafwyd cytundeb yr holl Gyfarwyddwyr dan sylw i hyn.

Polisi'r Iaith Gymraeg

Disgwylir i bob corff a noddir gan Lywodraeth Cymru lunio ac adolygu strategaeth i brif ffrydio'r Gymraeg bob blwyddyn (sy'n cynnwys gweithredu Cynllun Iaith). Cafodd Strategaeth Prif Ffrydio Amgueddfa Cymru ar gyfer 2010-11 ei rhoi ar waith yn ystod y flwyddyn ac fe'i diwygiwyd wedyn i adlewyrchu goblygiadau prif ffrydio Cynllun Gweithredu cyffredinol 2011-12.

Archwilydd

Archwilydd Cyffredinol Cymru sy'n archwilio'r cyfrifon yn unol ag Adran 9 (8) o Ddeddf Amgueddfeydd ac Orielaau 1992. Mae manylion tâl yr archwilyr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2011 yn Nodyn 6 i'r Cyfrifon Ariannol.

Prif Swyddfa

Prif swyddfa Amgueddfa Cymru yw: Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NP.

Prif Ymgynghorwyr

Bancwyr: Lloyds TSB Bank PLC, Caerdydd

Cyfreithwyr: Geldards LLP, Caerdydd

Archwilyr Mewnol: RSM Tenon Ltd., Caerdydd

Rheolwyr Buddsoddiadau: Barclays Wealth, Caerdydd

Rheolwyr y Gronfa Bensiynau: BBS Consultants and Actuaries Ltd., Bryste

Trethiant: Deloitte & Touche LLP, Caerdydd

David Anderson

Swyddog Cyfrifyddu a Chyfarwyddwr Cyffredinol
Cymeradwywyd a llofnodwyd ar 19 Gorffennaf 2011

J. Peter W. Morgan

Trysorydd, ar ran Bwrdd yr Ymddiriedolwyr
Cymeradwywyd a llofnodwyd ar 19 Gorffennaf 2011

BWRDD YR YMDDIRIEDOLWYR

(O 1 Ebrill 2010 ymlaen)

Llywydd

Paul E. Loveluck, CBE, JP, BA *† (ymddeolodd ar 31 Mai 2011)

Elisabeth Elias, MA, DL *† (penodwyd ar 1 Mehefin 2011)

Is-lywydd

Elisabeth Elias, MA, DL *† (tan 31 Mai 2011)

Trysorydd

J. Peter W. Morgan, M.Sc., FCA *†

Penodwyd gan Lywodraeth Cymru

Gareth Williams †

Carole-Anne Davies, BA (Hons), PG Dip. LCW Open, FRSA *

Miriam Hazel Griffiths, MA †

Yr Athro R. Gareth Wyn Jones, D.Phil., D.Sc., FSB, FRSC †

Christina Macaulay, MA (Anrh)

David Vokes LLB, MA †

Yr Athro Tony Atkins Sc.D., FR Eng.

Penodwyd gan Amgueddfa Cymru

Dr Iolo ap Gwynn, B.Sc., Ph.D., FRMS

Yr Athro J. Last, C.B.E., M.A., D.Litt., Hon FMA, FRSA

Yr Athro Jonathan Osmond, MA, D.Phil (Oxon), F.R.Hist S. (*Pwyllgor Archwilio o 22 Ebrill 2010)

Dr Haydn Ellis Edwards, B.Sc., MBA, Ph.D., FRSC, F.I.Mgt. †

Keshav Singhal FRCS, M.Ch.

Victoria Provis MBA

* Aelodau o'r Pwyllgor Archwilio † Aelodau o'r Pwyllgor Adolygu Perfformiad

Aelodau Annibynnol o'r Pwyllgor Archwilio

Laurie Pavlin – Cadeirydd

Eurfyl ap Gwilym

Huw Williams

BWRDD MENTRAU AMGUEDDFEYDD AC ORIELAU CENEDLAETHOL CYMRU CYF

(O 1 Ebrill 2010 ymlaen)

Gareth Williams – Cadeirydd

Christina Macaulay

Siân Llywelyn

Arwyn Davies (ymddeolodd ar 7 Rhagfyr 2010)

Nerys Howell Snowsill

Michael Houlihan (ymddeolodd ar 8 Awst 2010)

David Anderson (penodwyd ar 4 Tachwedd 2010)

Jon Sheppard (ymddeolodd ar 2 Mai 2011)

Mark Richards (penodwyd ar 12 Mai 2011)

Philip Smith

CYFARWYDDIAETH

(O 1 Ebrill 2010 ymlaen)

Cyfarwyddwr Cyffredinol

Cyfarwyddwr Cyfathrebu

Cyfarwyddwr Gweithrediadau a Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol

Cyfarwyddwr Cyllid

Cyfarwyddwr Dysgu a Rhaglennu

Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil

Michael Houlihan (tan 8 Awst 2010)

David Anderson (o 11 Hydref 2010)

Robin Gwyn

Mark Richards

Jon Sheppard (tan 2 Mai 2011)

Neil Wicks (o 27 Mehefin 2011)

Michael Tooby

John Williams-Davies

Datganiad o Gyfrifoldebau Bwrdd yr Ymddiriedolwyr a'r Cyfarwyddwr Cyffredinol

O dan adran 9(4) o Ddeddf Amgueddfeydd ac Orielau 1992, mae'n rhaid i Fwrdd Ymddiriedolwyr Amgueddfa Cymru baratoi datganiad o gyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol ar ffurf ac ar sail a bennir gan Lywodraeth Cymru, gyda chaniatâd y Trysorlys. Paratoir y cyfrifon i ddangos darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol yr Amgueddfa a'i hadnoddau net, enillion a cholledion wedi a heb eu gwireddu a llif arian ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n rhaid i'r Ymddiriedolwyr a'r Cyfarwyddwr Cyffredinol gydymffurfio â gofynion y Datganiad o Arferion Cymeradwy (2005): Cyfrifyddu ac Adrodd gan Elusennau a Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth, yn arbennig:

- cydymffurfio â chyfarwyddyd cyfrifon y Cynulliad, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, a defnyddio polisiau cyfrifyddu priodol mewn ffordd gyson
- gwneud penderfyniadau ac amcangyfrifon mewn ffordd resymol
- nodi a yw'r safonau cyfrifyddu perthnasol wedi cael eu dilyn fel y nodwyd hwy yn Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth, a datgelu ac esbonio unrhyw eithriadau o bwys yn y datganiadau ariannol, a
- pharatoi'r cyfrifon ar sail busnes hyfyw.

Mae Prif Swyddog Cyfrifyddu'r Cynulliad wedi dynodi mai'r Cyfarwyddwr Cyffredinol fydd Swyddog Cyfrifyddu Amgueddfa Cymru. Mae Memorandwm Swyddogion Cyfrifyddu Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a gyhoeddwyd gan y Trysorlys, yn disgrifio Cyfrifoldebau'r Cyfarwyddwr Cyffredinol fel Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys bod yn gyfrifol am sicrhau priodoldeb a rheoleidd-dra'r cyllid cyhoeddus y mae'n atebol amdano, a chadw cofnodion priodol a diogelu asedau'r Amgueddfa.

Datganiad ar ddatgelu gwybodaeth i archwilwyr

Cyn belled ag y bo'r Cyfarwyddwr Cyffredinol a'r Trysorydd, sef cynrychiolwyr Bwrdd yr Ymddiriedolwyr, yn ymwybodol, nid oes unrhyw wybodaeth sy'n berthnasol i'r archwiliad sy'n anhysbys i archwilwyr yr Amgueddfa, ac maent wedi cymryd yr holl gamau angenrheidiol er mwyn cael gwybod am unrhyw wybodaeth sy'n berthnasol i'r archwiliad, ac er mwyn sicrhau bod archwilwyr yr Amgueddfa yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Datganiad ar Reolaeth Fewnol

Cwmpas y cyfrifoldeb

Mae'r Swyddog Cyfrifyddu a'r Ymddiriedolwyr yn gyfrifol am gadw system gadarn o reolaeth fewnol sy'n helpu i wireddu polisiau, nodau ac amcanion Amgueddfa Cymru fel a bennwyd gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr, a hynny wrth amddiffyn y cronfeydd a'r asedau cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifyddu'n bersonol gyfrifol amdanynt yn unol â'r cyfrifoldebau a roddwyd iddo yn Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru.

Diben y system rheolaeth fewnol

Bwriad y system rheolaeth fewnol yw rheoli yn hytrach na dileu unrhyw risg o fethu cyflawni polisiau, nodau ac amcanion; nid yw felly'n rhoi sicrwydd llwyr o effeithiolrwydd ond mae'n cynnig lefel resymol o sicrwydd. Wrth wraidd y system rheolaeth fewnol mae proses barhaus i nodi a blaenoriaethu'r risgiau i gyflawni polisiau, nodau ac amcanion yr Amgueddfa, pwysu a mesur tebygolrwydd y risgiau hyn o ddigwydd a'u heffaith petaent yn digwydd, a'u rheoli mewn ffordd effeithlon, effeithiol a darbodus. Bu'r system rheolaeth fewnol yn gweithredu gydol y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2011, a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad a'r cyfrifon blynyddol, ac mae'n cyd-fynd â chanllawiau'r Trysorlys. I gefnogi'r system rheolaeth fewnol, mae'r Amgueddfa'n gweithredu polisiau Twyll a Chwythu'r Chwiban sy'n destun adolygiad archwilio.

Y gallu i ymdrin â risg

Cyfrifoldeb y Gyfarwyddiaeth yw rheoli risg o ddydd i ddydd, a chaiff adolygiadau ac asesiadau ffurfiol eu cynnal gan Grŵp Rheoli Risg. Caiff yr adolygiadau hyn eu harchwilio gan is-bwyllgor Adolygu Perfformiad Bwrdd yr Ymddiriedolwyr a'r Pwyllgor Archwilio. Trwy fanteisio ar brofiad yr archwilwyr mewnol, sy'n mynychu'r adolygiadau risg, a thrwy brofiad aelodau annibynnol y Pwyllgor Archwilio, caiff y broses ei diwygio'n barhaus a'i chymharu â sefydliadau eraill. Hefyd, mae cadeiryddiaeth ac aelodaeth y Grŵp Rheoli Risg yn newid yn rheolaidd i gynnig safbwynt ffres ar y risgiau sy'n wynebu'r Amgueddfa, gyda chymorth hyfforddiant perthnasol.

Y Fframwaith Risgiau a Rheoli

Mae'r Polisi a'r Canllawiau Rheoli Risg yn amlinellu'r fframwaith a swyddogaethau a chyfrifoldebau mewn perthynas â rheoli risg, ynghyd â chanllawiau ar bennu, asesu, monitro a rheoli risg. Edrychwyd unwaith eto ar y Polisi a'r Canllawiau, gyda chyfeiriad penodol at 'Lyfr Oren' Trysorlys Ei Mawrhydi ar reoli risg a llawlyfr Llywodraeth Cymru ar reoli risg – *Hanfodion Risg*. Mae archwiliad o gynllun a gweithrediad y broses Rheoli Risg wedi'i gynnwys yn rhaglen waith dreigl yr archwilwyr mewnol. Canolbwynt archwiliad 2010-11 oedd cyflwyno rheolaeth dros y risgiau a bennwyd. Ar ôl ystyried y materion a nodwyd, daeth yr archwiliad i'r casgliad y gallai'r Bwrdd fod yn sicr fod y rheolaethau y mae'r sefydliad yn dibynnu arnynt i reoli risgiau'r maes hwn wedi'u cynllunio'n addas, eu cyflwyno'n gyson ac yn effeithiol.

Mae grŵp trawsadrannol arbennig yn cynnal adolygiad Rheoli Risg trylwyr, gan edrych ar y cynnydd a'r effeithiolrwydd o ran rheoli risgiau mawr, gan gynnwys, wrth gwrs, diogelwch parhaus casgliadau'r Amgueddfa. Mae'r grŵp yn cadw Cofrestr Risgiau, gan flaenoriaethu'r holl risgiau yn ôl y tebygolrwydd y gallai'r risg gael ei gwireddu a'i heffeithiau posibl. Mae'r grŵp yn trafod newidiadau i'r bygythiadau posibl i wireddu nodau'r Amgueddfa gyda'r holl benaethiaid adran yn gyson, a thrwy hynny'n sicrhau bod y risgiau sy'n cael eu hasesu yn cwmpasu pob agwedd ar waith yr Amgueddfa a bod rheoli risg yn rhan annatod o'r holl sefydliad. Mae pennu a rheoli risgiau hefyd yn eitem gyson ar agenda pob cyfarfod Gweithgor sy'n cynnwys y Cyfarwyddwyr a phob Pennaeth Adran. Cedwir Cofrestr Risg ar wahân ar gyfer yr is-gwmni masnachu, y cwmni menter ar y cyd, a gydol oes pob project mawr a gyflawnir. Ar ddiwedd project, caiff y Gofrestr Risg ei hasesu a chaiff pob risg sy'n parhau ei throsglwyddo i brif gofrestr yr Amgueddfa.

Mae gofyn i'r grŵp ystyried risgiau posibl penodol gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr a'r Pwyllgorau Adolygu Perfformiad ac Archwilio. Hefyd, mae'r Pwyllgorau Adolygu Perfformiad ac Archwilio'n adolygu'r newidiadau i'r Gofrestr Risg a materion a drafodir yng nghyfarfodydd chwarterol y grŵp, yn ogystal â chymau lliniaru a gymerir yn erbyn y risgiau mwyaf.

Mae aelodau'r Grŵp Rheoli Risg yn cynnwys yr archwilydd mewnol er mwyn trafod materion sy'n peri pryder mewn cyrff eraill. Mae cynrychiolaeth yr adrannau'n cael ei hadolygu'n gyson er mwyn sicrhau bod pob risg bosibl yn cael ei thrafod. Mae rhaglen waith archwilwyr mewnol yn croesgyfeirio'n benodol at y risg a nodwyd, a hefyd yn ymateb i geisiadau i archwilio meysydd gweithgarwch penodol gan y Gyfarwyddiaeth a'r Pwyllgor Archwilio.

Mae bygythiadau i ddiogelwch asedau'r Amgueddfa yn risg sylfaenol sy'n gofyn am gamau lliniarol ac mae'n cael ei hadolygu'n rheolaidd gan yr archwilwyr mewnol, y Grŵp Rheoli Risg a Bwrdd yr Ymddiriedolwyr. Yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2011, derbyniodd ac adolygodd y Pwyllgor Archwilio adroddiad manwl a oedd yn trafod pa mor addas a digonol yw'r trefniadau cydymffurfio â'r Ddeddf Diogelu Data a'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Daeth yr adroddiad i'r casgliad bod trefniadau priodol ar waith. Ar ben hynny, rydym yn dal i gyflwyno gweithdrefnau diwygiedig yn ymwneud â diogelwch gwybodaeth yn sgil Adolygiad Sicrwydd Ychwanegol Swyddfa Archwilio Cymru yn y maes hwn yn 2009, gan gynnwys cyfres o sesiynau hyfforddi parhaus i'r staff i gyd.

Adolygiad o effeithiolrwydd

Y Swyddog Cyfrifyddu sydd hefyd yn gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol. Mae gwaith yr archwilwyr mewnol a'r Gyfarwyddiaeth, sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheoli mewnol, a sylwadau archwilwyr allanol yn eu llythyr rheoli ac adroddiadau eraill, yn llywio'r gwaith o adolygu effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol. Hysbyswyd y Swyddog Cyfrifyddu am oblygiadau canlyniad ei adolygiad o effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol gan yr Ymddiriedolwyr a'r Pwyllgor Archwilio, ac mae cynllun i fynd i'r afael â gwendidau a sicrhau gwelliannau parhaus i'r system ar waith.

Mae'r Amgueddfa wedi sefydlu'r prosesau canlynol i ategu'r fframwaith rheoli risgiau er mwyn cynnal system effeithiol o reolaeth fewnol:

- Trefniadau gweinyddu a rheoliadau ariannol trylwyr, gan gynnwys didoli dyletswyddau a gwahanol lefelau o awdurdod a ddirprwyir.
- Systemau cyllidebu cynhwysfawr ynghyd â chyllideb flynyddol a gymeradwyir gan yr Ymddiriedolwyr ac adolygiadau rheolaidd gan y Penaethiaid Adran, y Gyfarwyddiaeth a Bwrdd yr Ymddiriedolwyr, ar ffurf adroddiadau ariannol misol sy'n mesur perfformiad ariannol yn erbyn y rhagolygon.
- Pennu targedau i fesur perfformiad ariannol a pherfformiad arall o fewn y Cynllun Gweithredol, a monitro'r cynnydd yng nghyfarfodydd chwarterol y Pwyllgor Adolygu Perfformiad.
- Canllawiau clir ar reoli a monitro buddsoddiadau cyfalaf.
- Adroddiadau rheolaidd gan yr archwilwyr mewnol yn unol â safonau a bennir yn Llawlyfr Archwilio Mewnol y Llywodraeth, sy'n cynnwys barn annibynnol yr Archwilydd Mewnol ar ba mor ddigonol ac effeithiol yw'r system rheolaeth fewnol ac sy'n cynnig argymhellion ar gyfer gwella. Ar sail gwaith archwilio mewnol ar gyfer y deuddeg mis a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2011, daeth yr Archwilydd Mewnol i'r casgliad bod gan yr Amgueddfa brosesau rheoli, risg, llywodraethu a rheolaeth digonol ac effeithiol i reoli sut y cyflawnir ei hamcanion.

Un o elfennau allweddol adolygiad yr Amgueddfa o effeithiolrwydd y systemau rheolaeth fewnol yw'r Pwyllgor Archwilio. Mae'r Pwyllgor yn cynnwys Ymddiriedolwyr a hyd at bedwar o aelodau annibynnol (y mae un ohonynt yn gweithredu fel Cadeirydd fel rheol). Mae'r Pwyllgor yn cyfarfod bob chwarter ac mae cofnodion y cyfarfod, ac adroddiad y Cadeirydd, yn cael eu hystyried gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr. Mae'r Pwyllgor yn ystyried cwmplas y rhaglen archwilio fewnol ac yn derbyn adroddiadau gan yr archwilwyr mewnol ac allanol ac yn mynd i'r afael â'r holl bwyntiau gweithredu sy'n codi. Mae Cyfarwyddwyr allweddol hefyd yn mynychu'r cyfarfodydd fel y bo'n briodol i'r agenda, ac mae'r Pwyllgor yn cyfarfod â'r archwilwyr yn flynyddol heb Gyfarwyddwyr ac fel arall. Mae cylch gwaith bras y Pwyllgor yn cynnwys pob agwedd ar risg, rheolaeth a llywodraethu corfforaethol, gan gynnwys adroddiadau rheoli risg.

Ni chododd unrhyw faterion rheolaeth fewnol arwyddocaol yn ystod y flwyddyn y mae angen i ni eich hysbysu amdanynt.

David Anderson

Swyddog Cyfrifyddu a Chyfarwyddwr Cyffredinol
Cymeradwywyd a llofnodwyd ar 19 Gorffennaf 2011

J. Peter W. Morgan

Trysorydd, ar ran Bwrdd yr Ymddiriedolwyr
Cymeradwywyd a llofnodwyd ar 19 Gorffennaf 2011

TYSTYSGRIF AC ADRODDIAD ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU I GYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

Rwy'n tystio fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Amgueddfa Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2011 o dan adran 9 (4) o Ddeddf Amgueddfeydd ac Oriolau 1992. Mae'r rhain yn cynnwys y Datganiad Cyfunol o Weithgareddau Ariannol, y Fantolen Gyfunol, y Datganiad Llif Arian Cyfunol a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys adroddiad ar daliadau. Paratowyd y datganiadau ariannol o dan y polisiau cyfrifyddu a ddisgrifir ynddynt.

Cyfrifoldebau Bwrdd yr Ymddiriedolwyr, y Swyddog Cyfrifyddu a'r Archwilydd

Fel yr eglurir yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau Bwrdd yr Ymddiriedolwyr a'r Cyfarwyddwr Cyffredinol, Bwrdd yr Ymddiriedolwyr sy'n gyfrifol am baratoi'r Adroddiad Ariannol, sy'n cynnwys yr Adroddiad ar Dâl a'r datganiadau ariannol, yn unol ag Adran 9 (4) o Ddeddf Amgueddfeydd ac Oriolau 1992 a chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a wnaed oddi tani, ac am sicrhau cywirdeb y trafodion ariannol.

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r adroddiad ar dâl sydd i'w archwilio yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU ac Iwerddon). Mae'n ofynnol yn ôl y safonau hyn i mi gydymffurfio â Safonau Moesegol ar gyfer Archwilydd y Bwrdd Ymarfer Archwilio.

Cwmpas yr archwiliad o'r Datganiadau Ariannol

Mae archwiliad yn golygu casglu tystiolaeth am symiau a datgeliadau mewn datganiadau ariannol, i weld a oes sicrwydd rhesymol nad yw'r datganiadau ariannol yn cynnwys unrhyw gamddatganiad o bwys, boed trwy dwyll neu wall. Mae'n cynnwys asesu: a yw'r polisiau cyfrifyddu yn briodol i amgylchiadau Amgueddfa Cymru a'u bod wedi'u gweithredu'n gyson a'u datgelu'n ddigonol; pa mor rhesymol yw amcangyfrifon cyfrifyddu arwyddocaol Amgueddfa Cymru; a chyflwyniad cyffredinol y datganiadau ariannol.

Yn ychwanegol at hynny, mae'n ofynnol i mi gasglu digon o dystiolaeth er mwyn cael sicrwydd rhesymol fod y gwariant a'r incwm wedi'u defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

Rwyf hefyd yn darllen yr holl wybodaeth ariannol ac anariannol yn Adroddiad Ariannol Bwrdd yr Ymddiriedolwyr er mwyn nodi unrhyw anghysondebau gyda'r datganiadau ariannol a archwiliwyd. Os wyf yn dod yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau o bwys neu anghysondebau, byddaf yn ystyried y goblygiadau ar gyfer fy adroddiad.

Y farn ar Ddatganiadau Ariannol

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun teg a chywir o gyflwr Amgueddfa Cymru ar 31 Mawrth 2011, yr adnoddau a ddaeth i mewn a'r defnydd a wnaed ohonynt, ac enillion a cholledion a llif arian am y flwyddyn a ddaeth i ben; ac
- wedi'u paratoi yn gywir yn unol â chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru yn unol â Ddeddf Amgueddfeydd ac Oriolau 1992.

Barn ar Reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob ffordd o bwys, mae'r gwariant a'r incwm wedi cael eu defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan y Cynulliad ac mae'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodiadau sy'n eu llywodraethu.

Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i:

- mae'r rhan o'r Adroddiad ar Dâl sydd i'w harchwilio wedi'i pharatoi'n gywir yn unol â chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru, ac
- mae'r wybodaeth sydd yn yr Adroddiad Ariannol yn gyson â'r datganiadau ariannol.

Materion yr wyf yn adrodd arnynt gydag eithriad

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd ynglŷn â'r materion canlynol, yn fy marn i, heblaw:

- os nad yw'r Datganiad ar Reolaeth Fewnol yn cydymffurfio â chanllawiau Trysorlys EM;
- os nad yw'r cofnodion cyfrifyddu wedi'u cadw'n gywir;
- os nad yw gwybodaeth benodol gan Drysorlys EM ynghylch cydnabyddiaeth ariannol neu drafodion eraill wedi'i datgelu; neu
- os nad wyf wedi derbyn pob gwybodaeth ac esboniad sy'n ofynnol ar gyfer fy archwiliad.

Adroddiad

Nid oes unrhyw sylwadau gennyf i'w cyflwyno ar y datganiadau ariannol hyn.

Huw Vaughan Thomas
Archwilydd Cyffredinol Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

20 Gorffennaf 2011

DATGANIAD CYFUNOL O WEITHGAREDDAU ARIANNOL AM Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 MAWRTH 2011

Nodiadau	Cronfeydd Cyhoeddus		Cronfeydd Preifat		Ailddatganwyd (Gweler Nodyn 25)	
	Cyfyngedig	Digyfyngiad	Cyfyngedig	Digyfyngiad	2010-11	2009-10
	£'000	£'000	£'000	£'000	Cyfanswm £'000	Cyfanswm £'000
ADNODDAU I MEWN						
Gweithgareddau ar gyfer Cynhyrchu Arian:						
Incwm Buddsoddi	0	0	38	6	44	41
Incwm o'r is-gwmni masnachu	2	0	2,543	0	2,543	2,687
Incwm codi arian	0	0	420	62	482	816
	0	2,543	458	68	3,069	3,544
Gweithgareddau sy'n Datblygu Gwrthrychau Elusennol:						
Grantiau	3	4,176	23,767	0	0	27,943
Rhodion a chymynroddion	4	479	0	343	84	906
Incwm arall	5	11	1,061	6	1	1,079
		4,666	24,828	349	85	29,928
		4,666	27,371	807	153	32,997
CYFANSWM ADNODDAU I MEWN						
ADNODDAU A WARIWYD						
Costau Cynhyrchu Arian:						
Costau is-gwmni masnachu		0	2,139	0	0	2,139
Costau codi arian		0	348	0	2	350
		0	2,487	0	2	2,489
Costau Gweithgareddau Elusennol:						
Dysgu a Rhaglennu		129	2,994	67	3	3,193
Casgliadau ac Ymchwil		1,119	6,824	28	1	7,972
Gweithrediadau'r Amgueddfa		639	11,152	65	4	11,860
		1,887	20,970	160	8	23,025
Costau Llywodraethu		0	547	0	0	547
Costau Ariannu Pensiynau	16	0	92	0	0	92
		1,887	24,096	160	10	26,153
CYFRAN O'R FENTER AR Y CYD						
	8	(3,218)	0	0	0	(3,218)
ADNODDAU I MEWN NET AR GYFER Y FLWYDDYN ARIANNOL						
		(439)	3,275	647	143	3,626
Enillion/(Colledion) heb eu gwireddu ar ailbriso asedau sefydlog a fwrriadwyd at ddefnydd elusen	9	1,628	4	21	5	1,658
Enillion wedi'u gwireddu/heb eu gwireddu ar brisiad y farchnad o fuddsoddiadau	11	0	0	158	27	185
Enillion/(Colledion) actiwaraidd ar gynllun pensiwn â buddion wedi'u diffinio	16	0	11,975	0	0	11,975
		1,189	15,254	826	175	17,444
BALANS CRONFEYDD A DDYGWYD YMLAEN 1 EBRILL 2010						
	17	98,896	(24,593)	4,568	681	79,552
BALANS CRONFEYDD A GARIWYD YMLAEN 31 MAWRTH 2011						
	17	100,085	(9,339)	5,394	856	96,996

Mae'r SOFA uchod yn cynnwys yr holl enillion a cholledion cydnabyddedig.
Mae'r holl weithgareddau'n parhau.

Y cynnydd net anghyfunol mewn cronfeydd a gofnodwyd yn Natganiad o Weithgareddau Ariannol yr Amgueddfa yn ystod 2010-11 oedd £17,446,000 (gostyngiad o £5,429,000 yn 2009-10).

Mae'r nodiadau ar dudalennau 27 i 44 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

MANTOLEN GYFUNOL AR 31 MAWRTH 2011

Nodiadau	Amgueddfa Ailddatganwyd (Gweler Nodyn 25)		Cyfunol Ailddatganwyd (Gweler Nodyn 25)		
	2011 £'000	2010 £'000	2011 £'000	2010 £'000	
ASEDAU SEFYDLOG					
Asedau Diriaethol	9	76,009	72,484	76,011	72,490
Asedau Treftadaeth	10	16,433	15,032	16,433	15,032
Cyfran o'r Fenter ar y Cyd:	8				
Cyfran o asedau gros		9,838	13,056	9,838	13,056
Cyfran o rwymedigaethau gros		(3)	(3)	(3)	(3)
		<u>9,835</u>	<u>13,053</u>	<u>9,835</u>	<u>13,053</u>
Buddsoddiadau	11	2,158	1,973	2,158	1,973
		<u>104,435</u>	<u>102,542</u>	<u>104,437</u>	<u>102,548</u>
ASEDAU CYFREDOL					
Stoc	12	55	64	363	428
Dyledion sy'n ddyledus o fewn blwyddyn	13	3,235	1,990	2,367	1,007
Buddsoddiadau		10	800	10	1,100
Arian parod yn y banc ac mewn llaw		3,685	2,282	4,396	2,742
		<u>6,985</u>	<u>5,136</u>	<u>7,136</u>	<u>5,277</u>
RHWYMEDIGAETHAU CYFREDOL					
Credydwy'r sy'n ddyledus o fewn blwyddyn	14	(1,148)	(996)	(1,251)	(1,091)
		<u>5,837</u>	<u>4,140</u>	<u>5,885</u>	<u>4,186</u>
ASEDAU CYFREDOL NET					
ASEDAU NET AC EITHRIO					
RHWYMEDIGAETH CYNLLUN PENSIWN		<u>110,272</u>	<u>106,682</u>	<u>110,322</u>	<u>106,734</u>
Diffyg cynllun pensiwn â buddion wedi'u diffinio	16	(13,326)	(27,182)	(13,326)	(27,182)
ASEDAU NET GAN GYNNWYS					
RHWYMEDIGAETH CYNLLUN PENSIWN		<u>96,946</u>	<u>79,500</u>	<u>96,996</u>	<u>79,552</u>
CRONFEYDD	17				
Cronfeydd Cyhoeddus Cyfyngedig		100,085	98,896	100,085	98,896
Cronfeydd Cyhoeddus Difyfyngiad		3,937	2,537	3,987	2,589
Cronfa Bensiwn wrth Gefn		(13,326)	(27,182)	(13,326)	(27,182)
Cyfanswm Cronfeydd Cyhoeddus Difyfyngiad		<u>(9,389)</u>	<u>(24,645)</u>	<u>(9,339)</u>	<u>(24,593)</u>
Cronfeydd Preifat Cyfyngedig		5,394	4,568	5,394	4,568
Cronfeydd Preifat Difyfyngiad		856	681	856	681
		<u>96,946</u>	<u>79,500</u>	<u>96,996</u>	<u>79,552</u>

Llofnodwyd ar ran yr Ymddiriedolwyr gan

David Anderson
Swyddog Cyfrifyddu a Chyfarwyddwr Cyffredinol
Cymeradwywyd a llofnodwyd ar 19 Gorffennaf 2011

J. Peter W. Morgan
Trysorydd, ar ran Bwrdd yr Ymddiriedolwyr
Cymeradwywyd a llofnodwyd ar 19 Gorffennaf 2011

Mae'r nodiadau ar dudalennau 27 i 44 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

DATGANIAD LLIF ARIAN CYFUNOL AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 MAWRTH 2011

	Nodiadau	Amgueddfa		Cyfunol	
		2010-11 £'000	2009-10 £'000	2010-11 £'000	2009-10 £'000
Mewnlfif Arian Parod Net o Weithgareddau Gweithredu	18	4,477	4,504	4,428	4,549
Gwariant Cyfalaf a Buddsoddiad Ariannol	19	(3,864)	(3,406)	(3,864)	(3,406)
Rheoli Adnoddau Hylif	20	790	(800)	1,090	(1,100)
Cynnydd mewn Arian Parod	21	1,403	298	1,654	43

Mae'r nodiadau ar dudalennau 27 i 44 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

Nodiadau ar y Cyfrifon ar gyfer y Flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2011

1. Polisiau Cyfrifyddu

1.1 Y Sail Cyfrifyddu

Paratowyd y Cyfrifon o dan y confensiwn cost hanesyddol, a addaswyd i gynnwys ailbrisiad o asedau sefydlog diriaethol penodol o ran eu gwerth i'r Amgueddfa. Fe'u paratowyd yn unol â'r Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru gyda chaniatâd y Trysorlys. Heb gyfyngu ar y wybodaeth a roddir, mae'r Cyfrifon yn bodloni gofynion cyfrifyddu a datgelu'r Datganiad o Arferion a Argymhellir (SORP 2005), Cyfrifyddu ac Adrodd gan Elusennau a gyhoeddwyd gan Gomisiynwyr Elusennau Cymru a Lloegr, a'r datganiadau cyfrifyddu a gyhoeddwyd neu a fabwysiadwyd gan y Bwrdd Safonau Cyfrifyddu, lle bo'r gofynion hynny'n briodol. Mae'r Trysorlys wedi cadarnhau y gallai'r eithriadau i'r SORP Elusennau fod yn berthnasol o ran yr angen i ddatgelu cost hanesyddol asedau sefydlog diriaethol.

1.2 Trafodion y Fenter ar y Cyd

Mae'r Amgueddfa a Chyngor Dinas a Sir Abertawe yn bartneriaid cyfartal yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, Abertawe (AGGA), cwmni cyfyngedig dan warant heb gyfran cyfalaf. Mae canlyniadau'r fenter ar y cyd wedi'u cynnwys yn y datganiadau ariannol ac fe'u cyfrifwyd gan ddefnyddio'r dull ecwiti gros. Llofnodwyd cyfrifon AGGA ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2011 ar 25 Mehefin 2011 a derbyniwyd barn archwiliad diamod. Gellir derbyn copi o'r cyfrifon o Brif Swyddfa'r Amgueddfa: Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NP.

1.3 Trafodion yr Is-gwmni

Mae'r Amgueddfa'n gweithredu is-gwmni masnachu sy'n llwyr eiddo iddi o'r enw Mentrau Amgueddfeydd ac Oriellau Cenedlaethol Cymru (Mentrau AOCC) Cyf. Mae canlyniadau masnachu'r cwmni wedi'u cynnwys yn y datganiadau ariannol cyfunol gan ddefnyddio'r dull 'fesul llinell'. Cafodd cyfrifon Mentrau AOCC Cyf ar gyfer y flwyddyn hyd 31 Mawrth 2011 eu cymeradwyo ar 7 Gorffennaf 2011, ac fe dderbyniwyd barn archwiliad diamod. Gellir cael copi o'r cyfrifon o Brif Swyddfa'r Amgueddfa sef: Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NP.

1.4 Adnoddau i Mewn

Caiff yr holl incwm ei gydnabod yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol os bodlonwyd yr amodau ar gyfer ei dderbyn. Caiff unrhyw grantiau eu credydu i'r Datganiad o Weithgareddau Ariannol ar sail eu derbyn. Caiff incwm ar gyfer gwasanaethau ei gredu wrth ddarparu'r gwasanaeth. Rhoddir cyfrif am roddion a chymynroddion os bodlonwyd yr amodau ar gyfer eu derbyn.

1.5 Adnoddau a Wariwyd

Caiff gwariant ei ddyrannu ar draws y penawdau gwariant. Caiff ei ddyrannu fel bo'n briodol, yn ôl dyraniad uniongyrchol a dosraniad anuniongyrchol ar gyfer costau cynnal. Mae cost y cronfeydd cynhyrchu yn cynnwys pob gwariant sy'n gysylltiedig â'r is-gwmni masnachu a chodi arian. Mae cost gweithgareddau elusennol yn cynnwys pob gwariant sy'n gysylltiedig â dysgu a rhaglennu, casgliadau ac ymchwil a gweithrediadau'r amgueddfa.

1.6 Asedau Sefydlog Diriaethol

Mae'r holl eitemau sydd o natur cyfalaf ac yn costio mwy na £5,000 yn cael eu cyfalafu. Nid yw eitemau o natur cyfalaf sy'n costio llai na £5,000 yn cael eu cyfalafu, a chânt eu dileu yn y flwyddyn.

Mae asedau tir ac adeiladau yn cael eu prisio'n broffesiynol bob 5 mlynedd ar sail gwerth defnydd cyfredol neu gost adnewyddu ar ôl dibrisiant fel bo'n briodol, a chânt eu hailbrisiu trwy ddefnyddio mynegai yn y cyfnod cyfamserol. Caiff unrhyw waith cynnal a chadw bob dydd mewn perthynas â'r eiddo hwn ei ddileu yn ystod blwyddyn cyflawni'r gwaith.

Ers 1 Ebrill 2010, mae asedau nad ydynt yn ymwneud ag eiddo (h.y. offer a cherbydau a gosodiadau, ffitiadau a chyfarpar) bellach yn cael eu cadw ar sail cost hanesyddol (neu'r gost ailbrisiu cyn 1 Ebrill 2010), ac nid ydynt yn cael eu mynegeo mwyach gan mai bywydau economaidd byr neu werthoedd isel (neu'r ddau) sydd gan yr asedau hyn.

Mae'r rheolwyr yn cynnal adolygiad blynyddol o namau.

1.7 Asedau Treftadaeth

Diffinnir asedau treftadaeth fel asedau o bwys hanesyddol, celfyddydol neu wyddonol sy'n cael eu cadw at ddibenion datblygu amcanion cadwedigaeth, cadwraeth ac addysgiadol elusennau, ac sy'n cyfrannu trwy fynediad cyhoeddus i ddiwylliant ac addysg y genedl ar raddfa genedlaethol neu leol. Mae'r asedau hyn wrth galon y gwaith o gyflawni amcanion yr Amgueddfa ac yn cynnwys tir, adeiladau, arddangosion a chreiriau. Ers 1 Ebrill 2001, mae asedau treftadaeth a brynwyd neu a gyflwynwyd i'r Amgueddfa sydd â gwerth unigol o £5,000 neu fwy wedi cael eu cyfalafu ar sail cost/prisiad hanesyddol. Yn unol â chyfarwyddyd cyfrifon y Trysorlys, nid yw'r asedau a gafwyd cyn 1 Ebrill 2001 wedi cael eu cyfalafu ac ym marn yr Ymddiriedolwyr ni ellir cyfiawnhau cost sylweddol priso'r casgliad anferth hwn o asedau treftadaeth (tua 4.7 miliwn o eitemau) ar sail costau/buddion.

1.8 Dibrisiant

Caiff dibrisiant ei godi ar sail asedau sefydlog diriaethol (ac eithrio asedau tir a threftadaeth). Mae'r prif gyfraddau, gan ddefnyddio'r dull llinell syth, fel a ganlyn:

Bydd eiddo ar rydd-ddaliad ac eiddo ar brydles hir yn dibrisio yn ystod ei oes ddefnyddiol sef rhwng 50 a 125 mlynedd.

Yn ôl SORP Elusennau 2005, nid yw asedau treftadaeth yn dibrisio. Barn yr Ymddiriedolwyr yw bod gwerth gweddillol gweithiau celf yn uwch na'r gwerth cadw ac mae oes ddefnyddiol ddisgwyliedig asedau treftadaeth eraill mor hir nad yw dibrisiant o bwys.

Bydd peiriannau, cyfarpar, ffitiadau a gosodiadau'n dibrisio dros 5-10 mlynedd. Mewn achosion penodol, er enghraifft yn achos eitemau sy'n destun newidiadau technolegol neu lle bo ffactor darfodol uchel, caiff cyfnod o 3 blynedd ei ddefnyddio. Mae'n bosibl y bydd gan rai eitemau penodol eraill gyfnod dibrisio hirach.

Codir asedau ar brydles ar sail llinell syth dros dymor y brydles.

1.9 Cronfeydd

Mae Cronfeydd Cyhoeddus a Phreifat Digyfngiad ar gael i'w defnyddio, yn ôl disgrisiwn yr Ymddiriedolwyr, i hyrwyddo amcanion cyffredinol yr Amgueddfa.

Y Cronfeydd Cyfyngedig Cyhoeddus yw'r Grantiau Cyfalaf a'r Grantiau Prynu Sbesimenau sy'n dod oddi wrth Lywodraeth Cymru a chyrrff eraill y llywodraeth.

Cronfeydd Preifat Cyfyngedig yw cronfeydd sy'n dibynnu ar gyfyngiadau penodol a osodir gan gyfranwyr. Rhaid i'r cronfeydd hyn gyd-fynd â'r cyfarwyddiadau a oedd yn berthnasol wrth eu sefydlu.

1.10 Stoc

Mae'r Amgueddfa'n cadw stoc o gyhoeddiadau ac eitemau eraill i'w gwerthu yn ei siopau. Mae'r rhain yn cael eu priso ar isafswm y gost a'r gwerth net y maent yn ei dynnu.

1.11 Buddsoddiadau

Dangosir buddsoddiadau yn ôl eu gwerth ar y farchnad. Polisi'r Amgueddfa yw cadw cofnodion priso cyfoes, felly pan fo buddsoddiadau'n cael eu gwerthu, nid oes enillion na cholledion mewn perthynas â blynyddoedd blaenorol. O ganlyniad, nid yw'r Datganiad o Weithgareddau Ariannol yn gwahaniaethu rhwng addasiadau priso yn ymwneud â gwerthiant a'r rhai yn ymwneud â daliannau parhaus am eu bod yn cael eu trin fel newidiadau yng ngwerth portffolio buddsoddiad drwy gydol y flwyddyn.

1.12 Croniadau Gwyliau Staff

Mae'r Amgueddfa wedi mabwysiadu polisi cyfrifyddu sy'n cydnabod cronladau ar gyfer hawliau gwyliau'r staff hynny na gymerodd eu holl wyliau erbyn diwedd y flwyddyn, ac a gaiff ei drosglwyddo i'r flwyddyn ganlynol.

1.13 Ymchwil a Datblygu

Caiff gwariant ar ymchwil a datblygu ei osod yn erbyn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol ar gyfer y flwyddyn dan sylw.

1.14 Trethiant

Mae Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi wedi rhoi statws elusen i'r Amgueddfa, ond codir Treth Gorfforaeth ar Fentrau AOCC Cyf.

1.15 Pensiynau

Caiff cyfraniadau at Gynllun Pensiwn Amgueddfa Cymru eu codi yn erbyn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol er mwyn gwasgaru cost pensiwn dros fywyd gwaith y gweithwyr. Cyfrifir y gost yn ôl y Datganiad o Weithgareddau Ariannol ar sail y costau gwasanaethu cyfredol fel y'u cyfrifir gan actwari'r cynllun.

1.16 Deilliannau

Nid oes unrhyw fenthyciadau gan yr Amgueddfa ac mae'n dibynnu'n bennaf ar grantiau'r Llywodraeth o ran ei hanghenion arian parod. Mae'r holl asedau a rhwymedigaethau materol wedi eu nodi mewn sterling, ac nid ydynt yn agored i risgiau o ran cyfraddau llog neu arian cyfred.

1.17 Arian Tramor

Mae asedau a rhwymedigaethau mewn arian tramor yn cael eu trosi i sterling ar y gyfradd gyfnewid ar ddyddiad y fantolen. Mae trafodion mewn arian tramor yn cael eu trosi i sterling ar y gyfradd gyfnewid ar ddyddiad y trafodyn. Mae gwahaniaethau cyfnewid yn cael eu hystyried wrth benderfynu ar adnoddau net i mewn.

2. Is-gwmni Masnachu

Mae gan yr Amgueddfa is-gwmni masnachu sy'n llwyr eiddo iddi, ac sy'n gwmni corfforedig yn y DU. Prif waith Mentrau AOCC Cyf yw gwerthu nwyddau holl siopau'r Amgueddfa, arlwyfaeth, parcio, trwyddedu delweddu, llogi corfforaethol, gosodiadau, archebion post ac ymdrin â'r elw o werthu arddangosfeydd a hawliau ffilmio. Mae Mentrau AOCC Cyf yn dychwelyd ei elw i'r Amgueddfa ar ffurf rhoddion cymorth. Ceir crynodeb o'u canlyniadau masnachu isod.

	2010-11 £ '000	2009-10 £ '000
Trosiant	2,425	2,552
Cost gwerthiant	(1,831)	(1,889)
Elw Gros	594	663
Costau gweinyddol	(297)	(315)
Imcwm gweithredu arall	115	133
Elw ar weithgareddau arferol cyn llog	412	481
Llog derbyniadwy	3	0
(Colled)/enillion ar symudiadau arian cyfred	(3)	2
Llog sy'n daladwy	(8)	(8)
Elw ar weithgareddau arferol cyn treth	404	475
Treth ar elw gweithgareddau arferol	0	0
Elw ar gyfer y flwyddyn ariannol	404	475
Rhodd cymorth sy'n daladwy i'r Amgueddfa	(406)	(476)
Colled a gedwir ar gyfer y flwyddyn ariannol	(2)	(1)

3. Grantiau Derbyniadwy

	Cyhoeddus Cyfyngedig £'000	Cyhoeddus Digyfyngiad £'000	2010-11 £'000	2009-10 £'000
Cymorth Grant Refeniw	0	23,514	23,514	23,758
Cymorth Grant Prynu Sbesimenau	1,085	0	1,085	1,075
Cymorth Grant Cyfalaf	2,925	0	2,925	925
Grant arall y Llywodraeth	166	253	419	1,240
	4,176	23,767	27,943	26,998

Cafodd yr Amgueddfa gyfanswm o £27,524,000 o grantiau gan Lywodraeth Cymru (£25,758,000 yn 2009-10) sy'n cynnwys y Grantiau Refeniw, Prynu Sbesimenau a Chyfalaf.

Roedd grantiau eraill y Llywodraeth yn cynnwys: grant o £95,000 gan Lywodraeth Cymru (£1,180,000 yn 2009-10); £257,000 gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri (£2,000 yn 2009-10); £8,000 gan yr Undeb Ewropeaidd (£1,000 yn 2009-10) a grant arall o £59,000 (£57,000 yn 2009-10). Mae ffigurau cymharol y flwyddyn flaenorol wedi'u hail-ddadansoddi rhwng categorïau'r grantiau, ond nid oes unrhyw newid i'r cyfanswm terfynol.

4. Rhoddion a Chymynroddion

	Cronfeydd Cyhoeddus		Cronfeydd Preifat		2010-11 £'000	2009-10 £'000
	Cyfyngedig £'000	Digyfyngiad £'000	Cyfyngedig £'000	Digyfyngiad £'000		
Asedau a gyfrannwyd	0	0	343	0	343	37
Rhoddion eraill	479	0	0	84	563	1,033
	479	0	343	84	906	1,070

Cafodd holl waith prisio'r asedau a gyfrannwyd (neu gyfrannwyd yn rhannol) ei wneud gan staff curadurol yr Amgueddfa neu trwy gyfeirio at anfonebau/gohebiaeth derbyn 'in lieu'.

5. Incwm arall

	Cronfeydd Cyhoeddus		Cronfeydd Preifat		2010-11 £'000	2009-10 £'000
	Cyfyngedig £'000	Digyfyngiad £'000	Cyfyngedig £'000	Digyfyngiad £'000		
Dysgu a Rhaglennu	0	202	0	0	202	108
Casgliadau ac Ymchwil	11	144	0	0	155	163
Gweithrediadau'r Amgueddfa	0	681	0	0	681	690
Cymorth	0	34	6	1	41	100
	11	1,061	6	1	1,079	1,061

6. Cyfanswm yr Adnoddau a Wariwyd

(a) Amgueddfa

	Costau Union-gyrchol	Di-brisiant	Marchnata, y Wasg a CC	Costau Cymorth			2010-11 £'000	Ailddat-ganwyd 2009-10 £'000
	£'000	£'000	£'000	Cyllid £'000	TGCh £'000	Adnoddau Dynol £'000		
Costau Cynhyrchu Cronfeydd								
Cost Codi Arian	262	0	48	19	15	6	350	404
	262	0	48	19	15	6	350	404
Costau Gweithgareddau Elusennol								
Dysgu a Rhaglennu	2,838	94	73	32	111	45	3,193	3,403
Casgliadau ac Ymchwil	6,953	440	93	85	282	119	7,972	8,923
Gweithrediadau'r Amgueddfa	10,761	464	226	147	187	233	12,018	13,094
	20,552	998	392	264	580	397	23,183	25,420
Costau Llywodraethu	372	0	140	10	18	7	547	584
Costau Cyllid Pensiwn	92	0	0	0	0	0	92	1,484
Cyfanswm yr Adnoddau a Wariwyd	21,278	998	580	293	613	410	24,172	27,892

(b) Cyfunol

	Costau Union-gyrchol	Di-brisiant	Marchnata, y Wasg a CC	Costau Cymorth Cyllid	TGCh	Adnoddau Dynol	2010-11	Aiddat-ganwyd 2009-10
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Costau Cynhyrchu Cronfeydd								
Cost Is-gwmni Masnachu	2,135	4	0	0	0	0	2,139	2,212
Cost Codi Arian	262	0	48	19	15	6	350	404
	<u>2,397</u>	<u>4</u>	<u>48</u>	<u>19</u>	<u>15</u>	<u>6</u>	<u>2,489</u>	<u>2,616</u>
Costau Gweithgareddau Elusenol								
Dysgu a Rhaglennu	2,838	94	73	32	111	45	3,193	3,403
Casgliadau ac Ymchwil	6,953	440	93	85	282	119	7,972	8,923
Gweithrediadau'r Amgueddfa	10,603	464	226	147	187	233	11,860	12,935
	<u>20,394</u>	<u>998</u>	<u>392</u>	<u>264</u>	<u>580</u>	<u>397</u>	<u>23,025</u>	<u>25,261</u>
Costau Llywodraethu	372	0	140	10	18	7	547	584
Costau Cyllid Pensiwn	92	0	0	0	0	0	92	1,484
Cyfanswm yr Adnoddau a Wariwyd	<u>23,255</u>	<u>1,002</u>	<u>580</u>	<u>293</u>	<u>613</u>	<u>410</u>	<u>26,153</u>	<u>29,945</u>

Mae £43,220 (£43,220 yn 2009-10) wedi'i gynnwys yn yr adnoddau a wariwyd i dalu'r archwilyr allanol, £38,225 (£38,225 yn 2009-10) ar gyfer y ffi archwilio a £4,995 (£4,995 yn 2009-10) am waith arall.

Mae swm o £8,000 (£1,000 yn 2009-10) wedi'i gynnwys yn yr adnoddau a wariwyd mewn perthynas â gwariant yn ymwneud â grant yr UE.

Mae'r sail ar gyfer dyrannu costau cynnal fel a ganlyn: caiff costau Marchnata, y Wasg a Chysylltiadau Cyhoeddus eu dyrannu yn ôl canran amser; caiff costau Cyllid eu dyrannu yn ôl cyfanswm incwm a gwariant; caiff costau TGCh eu dyrannu yn ôl y nifer o gyfrifiaduron ac Adnoddau Dynol yn ôl y nifer o weithwyr sy'n cyfateb i amser llawn.

Mae'r costau llywodraethu'n cynnwys cynllunio strategol, gwaith y Bwrdd a'r pwyllgorau, cysylltiadau â Llywodraeth Cymru, archwilio mewnol ac allanol, rheoli risg a'r adroddiadau o'r cyfrifon statudol.

7. Costau Staff**(a) Costau staff yn ystod y flwyddyn:**

	Cyfunol	
	2010-11	Aiddat-ganwyd 2009-10
	£ '000	£ '000
Cyflogau a Thaliadau	15,165	15,384
Costau Nawdd Cymdeithasol	1,090	1,107
Costau Gwasanaeth Pensiwn FRS17	1,078	2,867
Costau Diswyddo	423	1,091
	<u>17,756</u>	<u>20,449</u>
Costau Cyllid Pensiwn FRS17	92	1,484
	<u>17,848</u>	<u>21,933</u>

Mae'r costau staffio'n cynnwys £1,052,000 (£1,055,000 yn 2009-10) ar gyfer yr is-gwmni masnachu.

Cyflwynodd yr Amgueddfa Gynllun Diswyddo Gwirfoddol yn 2010-11, a gostiodd £423,000 (£1,091,000 yn 2009-10). Roedd £193,000 (£936,000 yn 2009-10) o gostau straen i Gronfa Bensiwn yr Amgueddfa, ac maent wedi'u nodi yn y prisiad actiwaraid a welir yn Nodyn 16.

Mae'r costau gweithredu'n cynnwys £4,000 (£19,000 yn 2009-10) ar gyfer staff asiantaeth.

(b) Nifer cyfartalog misol y staff sy'n cyfateb ag amser llawn:

	Staff Parhaol	Staff Arall	2010-11 Nifer	2009-10 Nifer
Is-gwmni Masnachu	31	4	35	38
Codi Arian	5	0	5	5
Dysgu a Rhaglennu	44	4	48	52
Casgliadau ac Ymchwil	127	12	139	143
Gweithrediadau'r Amgueddfa	268	29	297	287
Cymorth	60	1	61	66
	<u>535</u>	<u>50</u>	<u>585</u>	<u>591</u>

(c) Manylion tâl a budd-daliadau pensiwn cyfarwyddwyr yr Amgueddfa:

	Cyflog 2010-11 (2009-10)	Cynnydd/ (gostyngiad) go iawn o ran pensiwn a'r cyfandaliad cysylltiedig yn 60 oed	Pensiwn a gronwyd yn 60 oed ar 31 Mawrth 11 a'r cyfandaliad cysylltiedig	CETV ar 31 Mawrth 11	CETV ar 31 Mawrth 10	Cynnydd/ (gostyngiad) go iawn yn y CETV ar ben cyfraniadau aelodau
	£	£	£	£	£	£
Mr David Anderson, Cyfarwyddwr Cyffredinol (o 11 Hyd 2010)	47,312 (Dim)	590 a 1,770 cyfanddaliad	590 a 1,770 cyfanddaliad	10,730	0	7,890
Mr Michael Houlihan, Cyfarwyddwr Cyffredinol (tan 8 Awst 2010)	36,495 (102,850)	(10) a (30) cyfanddaliad	9,410 a 28,230 cyfanddaliad	242,660	232,330	(4,170)
Mr Mark Richards Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol	78,094 (74,602)	740 a 2,220 cyfanddaliad	11,720 a 35,160 cyfanddaliad	234,530	199,800	19,520
Mr John Williams-Davies Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil	74,554 (73,816)	(870) a (2,610) cyfanddaliad	34,670 a 104,010 cyfanddaliad	911,450	906,410	(47,430)
Mr Michael Tooby, Cyfarwyddwr Dysgu a Rhaglennu	74,554 (73,816)	(340) a (1,202) cyfanddaliad	24,760 a 74,280 cyfanddaliad	528,170	486,040	11,940
Mr Jonathan Sheppard, Cyfarwyddwr Cyllid	74,554 (73,816)	210 a 630 cyfanddaliad	14,430 a 43,290 cyfanddaliad	370,050	331,660	16,380
Mr Robin Gwyn, Cyfarwyddwr Cyfathrebu	73,816 (70,138)	920 a 2,760 cyfanddaliad	9,370 a 28,110 cyfanddaliad	186,990	153,360	21,070

Gadawodd Mr Michael Houlihan ei swydd ar 8 Awst 2010. Roedd ei enillion fel Cyfarwyddwr Cyffredinol yn cynnwys cyflog sylfaenol o £36,495 (£102,850 yn 2009-10).

Dechreuodd Mr David Anderson ar ei swydd ar 11 Hydref 2010. Roedd ei enillion fel Cyfarwyddwr Cyffredinol yn cynnwys cyflog sylfaenol o £47,312 (£Dim yn 2009-10) a bonws anghyfunol ar sail perfformiad o £4,022 (£Dim yn 2009-10). Hefyd, cafodd gymorth gwerth £7,449 yn 2010-11 tuag at gostau adleoli.

Mae cyfarwyddwyr yr Amgueddfa i gyd yn aelodau cyffredin o gynllun pensiwn yr Amgueddfa.

Y Gwerth Trosglwyddo Cyfartal ag Arian Parod (CETV) yw gwerth cyfalaf budd-daliadau'r cynllun pensiwn a gronnydd gan aelod ar unrhyw adeg benodol yn ôl asesiad yr actwari. Mae'r cynnydd go iawn yn y CETV yn adlewyrchu'r cynnydd a ariannwyd gan yr Amgueddfa i bob pwrpas. Mae'n cymryd i ystyriaeth y cynnydd yn y pensiwn a gronnydd oherwydd chwyddiant, cyfraniadau'r gweithwyr (gan gynnwys gwerth unrhyw fudd-daliadau a drosglwyddwyd o gynllun pensiwn arall) ac mae'n defnyddio ffactorau priso ar y farchnad gyffredin ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

(d) Aelodau Bwrdd yr Ymddiriedolwyr

Nid yw'r Ymddiriedolwyr yn derbyn unrhyw dâl. Talwyd cyfanswm o £23,500 (£27,500 yn 2009-10) mewn costau teithio, cynhaliaeth a llety i aelodau'r Bwrdd a'r pwyllgorau. Ad-dalwyd costau i 12 ymddiriedolwr yn ystod y flwyddyn.

8. Cyfran o'r Fenter ar y Cyd

Mae'r Amgueddfa a Chyngor Dinas a Sir Abertawe yn bartneriaid cyfartal yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, Abertawe (AGGA) (Rhif Elusen 1090512), cwmni cyfyngedig drwy warant. Prif nod AGGA yw sefydlu amgueddfa yn Abertawe i gadw ac arddangos (inter alia) holl gasgliadau diwydiannol a morol Amgueddfa Cymru a Dinas a Sir Abertawe er budd y cyhoedd. Pe câi AGGA ei ddirwyn i ben neu ei ddiddymu, mae ei erthyglau a'i memorandwm cydweithio'n nodi y caiff unrhyw eiddo sy'n eiddo i'r elusen neu sy'n cael ei breinio ynddi ei drosglwyddo i elusen neu elusennau eraill ag amcanion tebyg.

Mae cyfran yr Amgueddfa o'r symudiad net mewn cronfeydd ac asedau net y Fenter ar y Cyd yn cynnwys:

	Cyfanswm Symudiadau Net mewn Cronfeydd		Cyfran o Symudiadau Net mewn Cronfeydd	
	2011 £'000	2010 £'000	2011 £'000	2010 £'000
Incwm Gwirfoddol: Cyfraniadau	5	6	3	3
Incwm Buddsoddiadau	0	0	0	0
Adnoddau i mewn eraill	0	0	0	0
Cyfanswm adnoddau i mewn	5	6	3	3
Gwariant ar weithgareddau elusennol	234	216	117	108
Costau llywodraethu	5	5	3	2
Cyfanswm yr adnoddau a wariwyd	239	221	120	110
Ailbriso Asedau Sefydlog	(6,202)	0	(3,101)	0
Symudiad Net mewn Cronfeydd	(6,436)	(215)	(3,218)	(107)

	Cyfanswm Asedau a Rhwymedigaethau		Cyfran o Asedau a Rhwymedigaethau	
	2011 £'000	2010 £'000	2011 £'000	2010 £'000
Asedau Sefydlog	19,600	26,019	9,800	13,009
Asedau Cyfredol	74	93	38	47
Rhwymedigaethau dyledus o fewn blwyddyn	(5)	(6)	(3)	(3)
Rhwymedigaethau dyledus ar ôl mwy na blwyddyn	(47)	(48)	0	0
Asedau Net	19,622	26,058	9,835	13,053
Cronfeydd				
Cronfa Gyffredinol (digyfyngiad)	19,551	25,970	9,800	13,009
Cronfa Gyfyngedig	71	88	36	44
	19,622	26,058	9,835	13,053

Ar 31 Mawrth 2011, roedd AGGA wedi contractio ar gyfer £Dim o wariant cyfalaf oedd heb ei wario ar ddyddiad y fantolen. (2010: £Dim gwariant cyfalaf wedi'i gontractio ond heb ei dynnu i lawr).

9. Asedau Sefydlog Diriaethol

(a) Amgueddfa

	Tir ac Adeiladau ar Rydd-ddaliad £'000	Eiddo ar Brydles £'000	Peiriannau a Cherbydau £'000	Gosodiadau, Ffitiadau a Chyfarpar £'000	Cyfanswm £'000
Cost neu Brisiant					
Ar 1 Ebrill 2010	18,164	55,730	393	1,717	76,004
Ychwanegiadau yn ystod y flwyddyn	0	2,384	273	213	2,870
Gwarediadau	0	0	(11)	0	(11)
Ailbrisio	(27)	(1,753)	0	0	(1,780)
Ar 31 Mawrth 2011	18,137	56,361	655	1,930	77,083
Dibrisiant					
Ar 1 Ebrill 2010	991	1,749	159	621	3,520
Cost ar gyfer y flwyddyn	244	456	98	200	998
Gwarediadau	0	0	(6)	0	(6)
Ailbrisio	(1,235)	(2,203)	0	0	(3,438)
Ar 31 Mawrth 2011	0	2	251	821	1,074
Gwerth Llyfr Net					
Ar 1 Ebrill 2010	17,173	53,981	234	1,096	72,484
Ar 31 Mawrth 2011	18,137	56,359	404	1,109	76,009

(b) Cyfunol

	Tir ac Adeiladau ar Rydd-ddaliad £'000	Eiddo ar Brydles £'000	Peiriannau a Cherbydau £'000	Gosodiadau, Ffitiadau a Chyfarpar £'000	Cyfanswm £'000
Cost neu Brisiant					
Ar 1 Ebrill 2010	18,164	55,730	393	1,749	76,036
Ychwanegiadau yn ystod y flwyddyn	0	2,384	273	213	2,870
Gwarediadau	0	0	(11)	0	(11)
Ailbrisio	(27)	(1,753)	0	0	(1,780)
Ar 31 Mawrth 2011	18,137	56,361	655	1,962	77,115
Dibrisiant					
Ar 1 Ebrill 2010	991	1,749	159	647	3,546
Cost ar gyfer y flwyddyn	244	456	98	204	1,002
Gwarediadau	0	0	(6)	0	(6)
Ailbrisio	(1,235)	(2,203)	0	0	(3,438)
Ar 31 Mawrth 2011	0	2	251	851	1,104
Gwerth Llyfr Net					
Ar 1 Ebrill 2010	17,173	53,981	234	1,102	72,490
Ar 31 Mawrth 2011	18,137	56,359	404	1,111	76,011

Cafodd tir ac adeiladau'r Amgueddfa eu priso'n broffesiynol ar 31 Mawrth 2011 gan M. A. Lawley o Syrfewyr Siartredig Cooke and Arkwright, yn unol â gofynion Safonau Priso ac Arfarnu Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig ac FRS15. Roedd gwerth pob eiddo yn cael ei gyfrif ar sail eiddo sy'n gartref i'r perchennog a rhagdybiaethau sy'n gysylltiedig â hynny: yn cael eu priso ar Bris Defnydd Cyfredol gan gymryd y byddai'r eiddo yn cael ei werthu fel rhan o fusnes parhaus neu drwy ddefnyddio'r dull cost dibrisiant. Yn y cyfamser, mae'r asedau hynny'n cael eu hailbriso gan ddefnyddio mynegai.

10. Asedau Treftadaeth

(a) Polisiâu Rheoli Casgliadau

Casglu sbesimenau yw'r rheswm dros fodolaeth amgueddfeydd, a dyna'r sail i'w gwaith a'u hamcanion. Yr Amgueddfa yw'r ystorfa genedlaethol o ddeunyddiau sy'n ymwneud â threftadaeth naturiol Cymru a'i threftadaeth wedi'i chreu, deunyddiau rhyngwladol sy'n helpu i ddiffinio lle Cymru yn y byd. Mae gennym oddeutu 4.7 miliwn o sbesimenau neu grwpiau yn ein casgliadau sydd o bwysigrwydd rhyngwladol. Rydym yn wahanol i amgueddfeydd ac orielau eraill y DU o ran amrywiaeth ein meysydd, ac o ran nifer ac amrywiaeth y safleoedd sydd dan ein rheolaeth.

Mae'r Amgueddfa yn cadw ac yn adolygu ei pholisiâu ar gaffael, gwaredu, gofal a chadwraeth, dogfennu a mynediad i'r safonau rhyngwladol uchaf. Mae manylion llawn y polisiâu hyn ar gael ar gais gan y Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil ym Mhrif Swyddfa'r Amgueddfa: Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NP.

(b) Costau Rheoli Casgliadau

	2010-11 £ '000	2009-10 £ '000
Costau rheoli casgliadau		
Cadwraeth	367	389
Dogfennaeth	200	203
Gwasanaethau Casgliadau	133	108
Y Ganolfan Gasgliadau	219	235
	919	935

Mae'r Datganiad o Weithgareddau Ariannol yn nodi'r costau hyn.

(c) Crynodeb o'r asedau treftadaeth wedi'u cyfalafu yn y Fantolen

(i) Asedau Treftadaeth a gyfrannwyd yn ystod y flwyddyn

	Celf £'000	Adeiladau Hanesyddol £'000	Arall £'000	Cyfanswm £'000
Cerflun dienw gan Jacqueline Lerat (rhan-gyfraniad)	1	-	-	1
<i>Bryn Rhwystrau</i> gan Clare Wood (rhan-gyfraniad)	2	-	-	2
<i>Fenis, y Cyfnos</i> gan Howard Hodgkin (rhan-gyfraniad)	2	-	-	2
<i>Palazzo Loredan</i> gan Francesco Guardi (rhan-gyfraniad)	265	-	-	265
<i>Melan Merthyr</i> – Heinz Koppel	8	-	-	8
<i>Ŷd Diemwnt</i> – Mircea Cantor	5	-	-	5
<i>Ar y Fferm</i> – Phyllis Lawson	5	-	-	5
<i>Darn o Lawr fy Stiwdio</i> – Paul Brewer	5	-	-	5
<i>Stiwdio'r Artist</i> – Victor Newsome	10	-	-	10
<i>The Queen of Spades</i> – Rozanne Hawksley	5	-	-	5
Dysgl Mytilidae (dysgl ar gyfer cregyn gleision) – Ben Ryan	15	-	-	15
<i>Bae Baglan yn y Nos</i> – Andrew Vicari	-	-	15	15
Bad achub chwyddedig â chorff anhyblyg	-	-	5	5
Cyfanswm yr Ychwanegiadau yn ystod y flwyddyn	323	0	20	343
Cyfanswm ar 1 Ebrill 2010	3,055	120	44	3,219
Cyfanswm ar 31 Mawrth 2011	3,378	120	64	3,562

Cafodd yr holl asedau a gyfrannwyd (neu a gyfrannwyd yn rhannol) eu priso gan staff curadurol yr Amgueddfa neu trwy gyfeirio at anfonebau/derbyniadau 'in lieu'.

(ii) Asedau Treftadaeth a brynwyd yn ystod y flwyddyn:

	Celf £'000	Adeiladau Hanesyddol £'000	Arall £'000	Cyfanswm £'000
Rhwymyn llyfr gweddi William Burgess	-	-	21	21
Ffan Waddle – Big Pit	-	-	12	12
Pentref Celtaidd – Sain Ffagan	-	30	-	30
<i>Tirlun Cymreig</i> gan William Dyce	557	-	-	557
Llestri Langstone	-	-	21	21
<i>Castell Caerffili</i> gan Hendrik Danckerts	9	-	-	9
<i>Palazzo Loredan</i> gan Francesco Guardi	85	-	-	85
<i>Coeden</i> gan Lida Abdul	23	-	-	23
<i>Y Trên</i> gan Olga Chemysheva	22	-	-	22
<i>Bryn Rhwystrau</i> gan Clare Woods	14	-	-	14
Cerflun dienw gan Jacqueline Lerat	8	-	-	8
<i>Lleoliad</i> gan Anthony Shapland	5	-	-	5
<i>And Freely He Goes Lost Dylan Thomas</i> gan Ceri Richards	7	-	-	7
<i>Fenis, y Cyfnos</i> gan Howard Hodgkin	19	-	-	19
<i>Castell Cas-gwent</i> gan James Dickson Innes	26	-	-	26
<i>Y Gwerthwr Rygiau</i> gan Christopher Wood	190	-	-	190
Tair medal	-	-	9	9
Cyfanswm ychwanegiadau yn ystod y flwyddyn	965	30	63	1,058
Cyfanswm ar 1 Ebrill 2010	5,353	5,589	871	11,813
Cyfanswm ar 31 Mawrth 2011	6,318	5,619	934	12,871

Ni chafwyd gwared ar asedau a nodwyd yn y Fantolen yn y pum mlynedd diwethaf.

(d) Crynodeb o wariant caffael sbesimenau yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol

Gwariant caffael ar sbesimenau di-gyfalaf dros y pum mlynedd diwethaf:

	2010-11 £'000	2009-10 £'000	2008-09 £'000	2007-08 £'000	2006-07 £'000
Archaeoleg a Niwmismateg	28	29	28	42	51
Celf	105	121	63	21	52
Bioamrywiaeth	53	68	92	48	55
Diwydiant	5	8	15	1	15
Cadwraeth	10	7	2	6	2
Daeareg	15	22	17	16	9
Llyfrgell	142	145	131	120	134
Bywyd Gwerin	127	105	148	156	97
Project Gofal a Mynediad i Gasgliadau	0	0	0	0	150
	485	505	496	410	565

Mae'r gwariant yn cynnwys caffaeliadau sy'n werth llai na £5,000, gwaith maes, adnewyddu ac adfer casgliadau.

(e) Rhagor o wybodaeth am asedau treftadaeth yng nghasgliad yr Amgueddfa

Nifer yr eitemau sydd gennym:

Mae tua 4.7 miliwn o eitemau yng nghasgliad yr Amgueddfa

Adran	Eitemau	Lluniau/ Archifau	Cyfanswm
Archaeoleg a Niwmismateg	851,000	45,000	896,000
Celf	40,960	-	40,960
Bioamrywiaeth	2,174,330	-	2,174,330
Daeareg	938,000	21,400	959,400
Diwydiant	39,090	197,500	236,590
Llyfrgell	195,000	-	195,000
Bywyd Gwerin	74,000	163,000	237,000
Cyfanswm	4,312,380	426,900	4,739,280

(i) Archaeoleg a Niwmismateg – mae gan yr Adran gasgliad o 896,000 o eitemau yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, yn ogystal ag Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru yng Nghaerllion. Mae archaeoleg a niwmismateg (astudiaeth o geiniogau a medalau), yn adrodd hanes ac archaeoleg Cymru ers y defnydd cyntaf o ogofâu 250,000 o flynyddoedd yn ôl hyd ddechrau'r chwyldro diwydiannol.

(ii) Celf – Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd yw cartref ein casgliad cenedlaethol o gelfyddyd gain a chymhwysol. Mae'r adnodd unigryw hwn yn cofnodi hanes celf yng Nghymru ers yr unfed ganrif ar bymtheg, ac yn cynnwys casgliad pwysig a sylweddol o gelf Brydeinig ac Ewropeaidd, yn ogystal â chelf o ddiwylliannau eraill.

(iii) Bioamrywiaeth a Bywydeg Gyfundrefnol – dyma gyfuniad o'r Adran Fotaneg a'r Adran Sŵoleg. Mae ganddi gasgliad anferthol o 2,174,330 o eitemau yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd. Rydym yn arddangos sbesimenau yn yr orielau hanes natur, neu gellir eu gweld trwy drefniant. Mae'r astudiaeth o fioamrywiaeth y ddaear – sef yr holl amrywiaeth o bethau byw – a sut mae organebau'n rhyngweithio, yn hollbwysig i'n lles yn y dyfodol.

(iv) Daeareg – mae'r Adran Ddaeareg yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd yn cynnwys casgliad o 959,400 o eitemau – gan gynnwys creigiau, mwynau a ffosilau sy'n ein helpu i ddeall hanes daearegol y Ddaear o'i gwreiddiau tua 4,600 miliwn o flynyddoedd yn ôl, a'r prosesau sy'n rhan o ffurfio a siapio cramen y ddaear. Maent yn cynnwys tystiolaeth i ddangos sut yr esblygodd Cymru dros 700 miliwn o flynyddoedd.

(v) Diwydiant – mae gan yr Adran Ddiwydiant 236,590 o wrthrychau yn ei chasgliadau. Maent yng ngofal Amgueddfa Lechi Cymru, Llanberis; Amgueddfa Wlân Cymru, Dre-fach; Big Pit: Amgueddfa Lofaol Cymru, Blaenafon; Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, Abertawe a rhai yn y Ganolfan Gasgliadau Genedlaethol yn Nantgarw y gellir eu gweld trwy drefniant. Mae'r casgliad yn cynnwys eitemau o'r diwydiannau glo, gweithgynhyrchu, morwrol a thrafnidiaeth. Mae cyfrifiad 1841 yn dangos mai Cymru oedd y wlad gyntaf yn y byd â chyfran uwch o weithwyr ym myd diwydiant nag amaethyddiaeth – ac mai Cymru oedd 'gwlad ddiwydiannol gynta'r byd' felly.

(vi) Llyfrgell – mae'r brif Lyfrgell, sydd yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, yn cynnwys 195,000 o lyfrau a chyfnodolion, ac ychwanegir oddeutu 3,000 o gyfrolau bob blwyddyn. Mae'n cynnwys casgliad o lyfrau prin a rhifynnau arbennig, yn enwedig ym maes hanes natur. Mae hefyd yn ffynhonnell wybodaeth i staff yr Amgueddfa, a gall y cyhoedd weld eitemau yn y Llyfrgell trwy drefniant.

(vii) Bywyd Gwerin – mae'r casgliad hwn yn cynnwys 237,000 o eitemau, yn Sain Ffagan: Amgueddfa Werin Cymru ar gyrrion y brifddinas. Mae'n cwmpasu bywyd y cartref, diwylliant, amaeth a masnach yng Nghymru o'r oesoedd canol hyd heddiw. Mae'r Amgueddfa yn dangos a dehongli'r meysydd hyn trwy gyfrwng deugain a mwy o adeiladau sydd wedi'u hailgodi ar hyd a lled y safle can erw. Mae archifau ffotograffaid, ffilm a sain helaeth yma hefyd.

11. Buddsoddiadau Asedau Sefydlog

	Amgueddfa		Cyfunol	
	2011 £'000	2010 £'000	2011 £'000	2010 £'000
Ar 1 Ebrill 2010	1,973	1,437	1,973	1,437
Ychwanegiadau i fuddsoddiadau am gost	475	476	475	476
Gwarediadau yn ôl gwerth y farchnad	(475)	(476)	(475)	(476)
Elw/(Colledion) net ar Ailbriso	185	536	185	536
Gwerth y Farchnad ar 31 Mawrth 2011	2,158	1,973	2,158	1,973

Cost hanesyddol buddsoddiadau ar 31 Mawrth 2011 oedd £1,849,000 (£1,776,000 ar 31 Mawrth 2010). Mae'r portffolio'n cynnwys Buddsoddiadau Cyfunol (Ymddiriedolaethau Unedol) a awdurdodwyd gan y Bwrdd Gwarantau a Buddsoddiadau (cafodd y rhain eu prisio yn broffesiynol gan reolwyr buddsoddiadau'r Amgueddfa, Barclays Wealth) ac mae'r cyfranddaliadau (a gafodd yr Amgueddfa'n gymynrodd) wedi eu rhestru ar Farchnad Stoc Llundain.

12. Stoc

	Amgueddfa		Cyfunol	
	2011 £'000	2010 £'000	2011 £'000	2010 £'000
Nwyddau Siop ar werth	0	0	308	364
Stoc cyhoeddiadau a gedwir ar wahân	67	125	67	125
Llai darpariaeth ar gyfer dileu stoc	(12)	(61)	(12)	(61)
	55	64	363	428

13. Dyledwyr

	Amgueddfa		Cyfunol	
	2011 £'000	2010 £'000	2011 £'000	2010 £'000
Dyledwyr Masnachol	96	145	193	266
Swm sy'n ddyledus gan yr is-gwmni masnachol	602	753	0	0
Benthyciadau sy'n ddyledus gan yr is-gwmni masnachol	301	301	0	0
Dyledwyr eraill	621	568	544	504
Rhagdaliadau	1,615	223	1,630	237
	3,235	1,990	2,367	1,007
Mantoli gyda:				
Cyrff llywodraeth ganolog	548	532	471	467
Awdurdodau lleol	35	34	35	34
Is-gyfanswm balansau rhyng-lywodraeth	583	566	506	501
Cyrff tu allan i'r llywodraeth	2,652	1,424	1,861	506
Cyfanswm	3,235	1,990	2,367	1,007

Mae Rhagdaliadau yn cynnwys cyfraniadau ymlaen llaw o £1,382,000 i'r Gronfa Bensiwn ar 31 Mawrth 2011 (£Dim ar 31 Mawrth 2010).

14. Credydwyr: Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn

	Amgueddfa Ailddatganwyd		Cyfunol Ailddatganwyd	
	2011	2010	2011	2010
Credydwyr Masnach	312	164	328	197
Credydwyr a chroniadau eraill	836	832	923	894
	<u>1,148</u>	<u>996</u>	<u>1,251</u>	<u>1,091</u>
Mantoli gyda:				
Cyrff llywodraeth ganolog	13	8	13	8
Awdurdodau lleol	6	4	6	4
Is-gyfanswm balansau rhyng-lywodraeth	19	12	19	12
Cyrff y tu allan i'r llywodraeth	1,129	984	1,232	1,079
Cyfanswm	<u>1,148</u>	<u>996</u>	<u>1,251</u>	<u>1,091</u>

15. Ymrwymadau Prydles Weithredu

	Amgueddfa		Cyfunol	
	2010-11 £'000	2009-10 £'000	2010-11 £'000	2009-10 £'000
Dod i ben:				
Rhwng blwyddyn a phum mlynedd	<u>0</u>	<u>0</u>	<u>7</u>	<u>7</u>

16. Pensiynau

Mae gan yr Amgueddfa gynllun pensiwn â buddion wedi'u diffinio yn y DU, sydd wedi'i warantu gan Warant y Goron a gyhoeddwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol. Cyflawnwyd prisiad actwariaidd llawn ar 31 Mawrth 2009. Cafodd ei ddiweddarau ar 31 Mawrth 2011 gan actwari annibynnol cymwys gan ddefnyddio canllawiau Trysorlys Ei Mawrhydi.

Roedd y prisiad actiwaraidd ar 31 Mawrth 2011 yn dangos gostyngiad yn y diffyg o £27,182,000 i £13,326,000. Cyfrannodd yr Amgueddfa £3,051,000 (£3,303,000 hyd 31 Mawrth 2010) at y Cynllun yn ystod y flwyddyn hyd 31 Mawrth 2011, ar gyfradd o 21.3% o'r Tâl Pensiynadwy.

Disgwylir i'r Amgueddfa gyfrannu £2,897,000 at y Cynllun yn 2011-12.

(a) Symiau yn y fantolen:

	2011 £'000	2010 £'000
Gwerth teg asedau	74,549	68,578
Rhwymedigaeth buddion wedi'u diffinio	(87,875)	(95,760)
Gwarged/(Diffyg)	<u>(13,326)</u>	<u>(27,182)</u>

(b) Dadansoddiad o newidiadau yng ngwerth teg asedau:

	2011 £'000	2010 £'000
Gwerth teg asedau agoriadol	68,578	48,718
Adenillion disgwylidig	4,329	2,882
Cyfraniadau cyflogwr	3,051	3,303
Cyfraniadau aelodau	831	859
Elw/(colled) profiad actiwaraidd	1,224	16,386
Buddion a dalwyd	(3,464)	(3,570)
Gwerth teg asedau i gloi	<u>74,549</u>	<u>68,578</u>

(c) Dadansoddiad o newidiadau yng ngwerth cyfredol rhwymedigaethau buddion wedi'u diffinio:

	2011 £'000	2010 £'000
Rhwymedigaeth buddion wedi'u diffinio agoriadol	95,760	72,192
Cost cyfredol y gwasanaeth	3,228	2,041
Cwtogiad	124	826
Cyfraniadau aelodau	831	859
Cost/(credyd) gwasanaeth yn y gorffennol	(2,274)	0
Cost llog	4,421	4,366
Elw/(colled) actiwaraidd	(10,751)	19,046
Buddion a dalwyd	(3,464)	(3,570)
Rhwymedigaeth buddion wedi'u diffinio i gloi	87,875	95,760

(d) Symiau a godwyd ar adnoddau a wariwyd:

	2011		2010	
	£'000	£'000	£'000	£'000
Cost cyfredol y gwasanaeth	3,228		2,041	
Cost/(credyd) gwasanaeth yn y gorffennol	(2,274)		0	
Cwtogiad	124		826	
		1,078		2,867
Adenillion disgwylidig ar asedau	(4,329)		(2,882)	
Cost llog	4,421		4,366	
		92		1,484
Cyfanswm symiau a godwyd ar adnoddau a wariwyd		1,170		4,351

(e) Prif gategoriâu asedau'r cynllun fel canran o gyfanswm asedau'r cynllun:

	2011	2010
Ecwiti	75.90%	76.90%
Giltiau Mynegai Cysylltiol	13.90%	13.30%
Bondiau corfforaethol	10.10%	9.70%
Erail	0.10%	0.10%

(f) Prif ragdybiaethau actiwaraidd:

	2011	2010
Cyfradd gostyngiad	5.60%	4.60%
Chwyddiant – RPI	3.40%	2.75%
Chwyddiant – CPI	2.65%	N/A
Twf cyflogau	4.90%	4.25%
Cynnydd taliadau pensiwn – cyn 2000	3.40%	2.75%
Cynnydd taliadau pensiwn – ar ôl 2000	2.65%	2.75%
Cynnydd pensiwn gohiriedig	2.65%	2.75%
Adenillion disgwylidig ar asedau	6.20%	6.30%
Rhagdybiaeth disgwylidig oes – 65 oed		
Gwrywaidd	86.9	86.8
Benywaidd	89.1	89.0
Rhagdybiaeth disgwylidig oes – 45 oed		
Gwrywaidd	87.9	87.9
Benywaidd	90.0	89.9

Mae'r gyfradd adenillion disgwylidig a ddefnyddir ar asedau o 6.2% yn dod o adenillion disgwylidig wedi'i bwysoli ar bob un o brif gategoriâu'r ased. Yn benodol:

- Cymerwyd bod adenillion blynyddol disgwylidig ar giltiau llog sefydlog a mynegai cysylltiol yn 4.36%, sy'n cyfateb i gynnyrch blynyddol ar fynegai gilt 20 mlynedd FTSE ar 31 Mawrth 2011;
- Cymerwyd bod adenillion blynyddol disgwylidig bondiau corfforaethol yn 5.60%, sy'n cyfateb i'r raddfa ostyngiad;
- Cymerwyd bod yr adenillion blynyddol disgwylidig ar soddgyfrannau (a'r mân ddaliad mewn eiddo a buddsoddiadau eraill) yn 6.61% y flwyddyn. Cymerwyd hyn fel 2.25% uwchben adenillion disgwylidig ar giltiau, fel mewn blynyddoedd blaenorol.

(g) Symiau ar gyfer y flwyddyn gyfredol a'r pedair blynedd blaenorol:

	2011	2010	2009	2008	2007
Gwerth teg asedau	74,549	68,578	48,718	65,195	65,972
Rhwymedigaethau buddion wedi'u diffinio	(87,875)	(95,760)	(72,192)	(76,949)	(79,973)
Diffyg	(13,326)	(27,182)	(23,474)	(11,754)	(14,001)
Addasiadau profiad ar asedau	1,224	16,386	(21,258)	(6,524)	2,486
Addasiadau profiad ar rwymedigaethau	0	3,071	(121)	(191)	(68)

17. Datganiad o Gronfeydd

(a) Symudiadau rhwng Cronfeydd

	1 Ebrill 2010 Ailddatganwyd £000	Adnoddau i mewn £000	Adnoddau a wariwyd £000	Symudiadau eraill yn y flwyddyn £000	31 Mawrth 2011 £000
Cronfeydd Cyhoeddus					
Cyfyngedig – Cyfalaf	88,554	2,925	(1,319)	(1,593)	88,567
Cyfyngedig – Sbesimenau	10,342	1,741	(568)	3	11,518
Cyfanswm Cyfyngedig	98,896	4,666	(1,887)	(1,590)	100,085
Digyfyngiad	2,589	27,371	(25,977)	4	3,987
Cronfa bensiwn wrth gefn	(27,182)	0	1,881	11,975	(13,326)
Cyfanswm Digyfyngiad	(24,593)	27,371	(24,096)	11,979	(9,339)
Cyfanswm Cronfeydd Cyhoeddus	74,303	32,037	(25,983)	10,389	90,746
Cronfeydd Preifat					
Cyfyngedig	4,568	807	(160)	179	5,394
Digyfyngiad	681	153	(10)	32	856
Cyfanswm Cronfeydd Preifat	5,249	960	(170)	211	6,250
Cyfanswm	79,552	32,997	(26,153)	10,600	96,996

Cofnodwyd £3,937,000 o Gronfeydd Cyhoeddus Digyfyngiad yng nghyfrifon anghyfunol yr Amgueddfa ei hun ar 31 Mawrth 2011, gyda swm o £50,000 wedi'i briodoli i Fentrau AOCC Cyf.

Mae'r Cronfeydd Cyfyngedig Preifat yn cynnwys dwy gronfa balans mawr sef: Cronfa'r Adran Gelf a Chronfa Sain Ffagan: Amgueddfa Werin Cymru.

(b) Dadansoddiad o'r Asedau Net rhwng Cronfeydd

	Cronfeydd Cyhoeddus		Cronfeydd Preifat		2011 £'000
	Cyfyngedig £'000	Digyfyngiad £'000	Cyfyngedig £'000	Digyfyngiad £'000	
Asedau Sefydlog	99,429	367	4,044	597	104,437
Asedau Cyfredol	876	4,647	1,353	260	7,136
Rhwymedigaethau Cyfredol	(220)	(1,027)	(3)	(1)	(1,251)
Asedau Net (cyn rhwymedigaethau pensiwn)	100,085	3,987	5,394	856	110,322
Rhwymedigaethau Pensiwn	0	(13,326)	0	0	(13,326)
Asedau Net (cyn rhwymedigaethau pensiwn)	100,085	(9,339)	5,394	856	96,996

18. Cysoni'r Newidiadau mewn Adnoddau i'r Llif Arian Net o Weithgareddau Gweithredu

	Amgueddfa		Cyfunol	
	Ailddatganwyd		Ailddatganwyd	
	2010-11 £'000	2009-10 £'000	2010-11 £'000	2009-10 £'000
Adnoddau i mewn net ar gyfer y flwyddyn ariannol	3,628	2,622	3,626	2,621
Cyfran o'r Fenter ar y Cyd	3,218	107	3,218	107
Asedau a Gyfrannwyd	(343)	(37)	(343)	(37)
Dibrisiant	998	994	1,002	998
Gostyngiad/(Cynnydd) mewn Stoc	9	7	65	(41)
Cynnydd mewn Dyledwyr	(1,207)	(278)	(1,323)	(210)
Cynnydd mewn Credydwyr	54	39	63	61
Gwaredu Asedau Sefydlog	1	2	1	2
Costau pensiwn blynyddol cyfredol FRS17	(1,881)	1,048	(1,881)	1,048
Arian Net i mewn o Weithgareddau Gweithredu	4,477	4,504	4,428	4,549

19. Gwariant Cyfalaf a Buddsoddiadau Ariannol

	Amgueddfa		Cyfunol	
	2010-11 £'000	2009-10 £'000	2010-11 £'000	2009-10 £'000
	Taliadau i gaffael Asedau Sefydlog Diriaethol	(3,868)	(3,414)	(3,868)
Enillion o werthu Asedau Sefydlog Diriaethol	4	8	4	8
	(3,864)	(3,406)	(3,864)	(3,406)

20. Rheoli Adnoddau Hylif

	Amgueddfa		Cyfunol	
	2010-11 £'000	2009-10 £'000	2010-11 £'000	2009-10 £'000
	Buddsoddiadau ar 1 Ebrill 2010	800	0	1,100
(Gostyngiad)/Cynnydd mewn buddsoddiadau tymor byr	(790)	800	(1,090)	1,100
Buddsoddiadau ar 31 Mawrth 2011	10	800	10	1,100

21. Symudiadau Arian Parod

	Amgueddfa		Cyfunol	
	2010-11 £'000	2009-10 £'000	2010-11 £'000	2009-10 £'000
Arian Parod Net ar 1 Ebrill 2010	2,282	1,984	2,742	2,699
Arian Parod i mewn Net	1,403	298	1,654	43
Arian Parod Net ar 31 Mawrth 2011	3,685	2,282	4,396	2,742

22. Ymrwymadau Cyfalaf

	2011 £'000	2010 £'000
Ar ddyddiad llunio'r fantolen roedd ymrwymadau cyfalaf o	731	2,703

Y prif rwymedigaethau ar 31 Mawrth 2011 oedd gwaith adnewyddu'r Adain Orllewinol Uchaf yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd a Phroject Ailddatblygu Sain Ffagan (y prif rwymedigaethau ar 31 Mawrth 2010 oedd ailwampio'r Adain Orllewinol Uchaf ac adeiladu Gofod Dysgu Clore yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd).

23. Rhwymedigaethau wrth Gefn a Gwarantau

Nid oes unrhyw rwymedigaethau wrth gefn ar asedau ar 31 Mawrth 2011.

Pe bai Big Pit: Amgueddfa Lofaol Cymru yn cau, mae rhwymedigaethau wrth gefn i ddiogelu siafft y pwll a'r ardaloedd cyfagos. Mae dadgomisiynu yn debygol o gostio tua £1 miliwn ac mae'r swm wedi ei warantu gan Lywodraeth Cymru.

24. Trafodion Cyrff Cysylltiedig

Mae Amgueddfa Genedlaethol Cymru yn Gorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru. Felly, ystyrir bod Llywodraeth Cymru yn gorff cysylltiedig. Yn ystod y flwyddyn, cafodd yr Amgueddfa gyllid oddi wrth Lywodraeth Cymru ar ffurf Cymhorthdal Refeniw, Cyfalaf a Grant Prynu Sbesimenau, y cyfeirir ato yn Nodyn 3. Cynhyrnodd hefyd wariant o £12,000.

Yn ystod y flwyddyn, cafodd yr Amgueddfa drafodion materol amrywiol mewn perthynas â gweithgareddau gwasanaeth gyda chyrrff eraill sy'n cael eu noddi gan Lywodraeth Cymru, sef Cyngor Cefn Gwlad Cymru (incwm o £3,100) ac Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru (incwm o £1,300).

Mr Paul E. Loveluck (tan 31 Mai 2011), Elisabeth Elias (o 1 Mehefin 2011), y Llywydd, Mr J. Peter W. Morgan, Trysorydd a Mr Gareth Williams, Ymddiriedolwr, yw 3 o 7 Cyfarwyddwr Amgueddfa Genedlaethol y Glannau y cyfeirir atynt yn Nodyn 8 y Cyfrifon. Nid yw'r un ohonynt yn cael tâl gan y cwmni hwn.

Talodd yr Amgueddfa £3,371 i'r Museums Association yn 2010-11. Mae Mr David Anderson, Cyfarwyddwr Cyffredinol, yn aelod o'r gymdeithas.

Talodd yr Amgueddfa £15,085 i Brifysgol Caerdydd yn 2010-11 a derbyniodd £44,919 gan y Brifysgol honno. Roedd Jonathan Osmond, Ymddiriedolwr, yn Ddirprwy Is-ganghellor Prifysgol Caerdydd.

Talodd yr Amgueddfa £15,761 i Odgers Berndtson yn 2010-11. Roedd Victoria Provis, Ymddiriedolwr, yn Bartner gyda Odgers Berndtson.

Talodd yr Amgueddfa £21 i Sefydliad y Cyfarwyddwyr Cymru a derbyniodd incwm o £120 gan Netalogue Technologies Plc yn 2010-11. Mae Gareth Williams, Ymddiriedolwr, yn Gadeirydd Sefydliad y Cyfarwyddwyr Cymru a Netalogue Technologies Plc.

Talodd yr Amgueddfa £785 i Llŷr Engineering yn 2010-11. Mab lolo Ap Gwynn, un o'r Ymddiriedolwyr, yw perchennog Llŷr Engineering.

Nid oedd unrhyw weddillion dros ben ar ddiwedd y flwyddyn, ac roedd pob archeb a wnaed yn unol â gweithdrefnau caffael yr Amgueddfa.

25. Addasiadau'r Flwyddyn Flaenorol

Cyn hyn, nid oedd yr Amgueddfa yn cydnabod croniadau diwedd blwyddyn ar gyfer gwyliau staff heb eu cymryd ac sy'n cael eu trosglwyddo ymlaen i'r flwyddyn ganlynol. Erbyn hyn, fodd bynnag, mae'r Amgueddfa wedi mabwysiadu polisi cyfrifyddu o'r fath yn dilyn ymarferiad a bennodd fod hwn yn ffigur perthnasol i gyfrifon yr Amgueddfa. Rydym wedi ailddatgan cymharydd y flwyddyn flaenorol ar gyfer 2009-10 yn unol â hynny. Mae hyn wedi ychwanegu gwariant ychwanegol o £7,000 i'r Datganiad o Weithgareddau Ariannol (SOFA) yn ystod 2009-10 (sef y symudiad rhwng croniad 2008-09 a 2009-10) a rhwymedigaeth/croniad ychwanegol o £313,000 i'r Fantolen ar 31 Mawrth 2010 (Cronfeydd Cyhoeddus Difyfyngiad) o gymharu â'r un a nodwyd yn flaenorol.

Yn ôl gofynion blaenorol Cyfrifyddu'r Llywodraeth, roedd angen cynnwys cost cyfalaf tybiannol, a gyfrifwyd trwy ychwanegu 3.5% at y cyfalaf cyfartalog cyhoeddus. Mae cost taliadau cyfalaf yn dangos elw priodol ar ecwiti trethdalwyr. Cafodd y gofyniad hwn ei ddileu o 1 Ebrill 2010 ac mae cyfrifon 2009-10 wedi'u hailddatgan yn unol â hynny. Nid yw'r sefyllfa net wedi newid gan fod y ffigur hwn yn ymddangos fel cost yn SOFA cyn cael ei nodi fel credyd yn SOFA (swm o £2,725,000 yn 2009-10).

Newid arall i'r polisi cyfrifyddu yw'r ffaith nad yw'r Amgueddfa bellach yn ailbriso/mynegeio ei hasedau nad ydynt yn ymwneud ag eiddo. Mae'r asedau hyn bellach wedi'u cadw fel cost hanesyddol ers 1 Ebrill 2010 (neu'r gost ailbriso cyn 1 Ebrill 2010) gan mai bywyd economaidd byr neu werth isel (neu'r ddau) sydd gan yr asedau hyn. Nid yw cymaryddion y flwyddyn flaenorol wedi'u hailddatgan gan nad yw'r ffigurau'n sylweddol. Er hynny, pe bai cymaryddion y flwyddyn flaenorol wedi'u hailddatgan ar gyfer 2009-10 byddai hyn wedi gostwng yr Adnoddau a Wariwyd (Dibrisiant) £9,000 ac wedi cynyddu'r Colledion heb eu Gwireddu ar Ailbriso £60,000 yn y SOFA a byddai wedi gostwng gwerth yr Asedau Sefydlog £51,000 yn y Fantolen.

26. Digwyddiadau ar ôl y Fantolen

Cafodd y datganiadau ariannol hyn eu hawdurdodi gan y Swyddog Cyfrifyddu i'w cyhoeddi ar 19 Gorffennaf 2011.